

Cod Ymarfer REF 2029

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English

Enw'r Sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Dyddiad cyflwyno: 12 Mai 2026

Cynnwys

Dyddiad cyflwyno: 12 Mai 2026.....	2
Rhan 1. Cyflwyniad.....	3
Rhan 2. Dynodi Contractau Staff â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR)	6
Rhan 3: Pennu Annibyniaeth Ymchwil	19
Rhan 4: Dyrannu Contractau i Unedau Asesu (UoAs).....	23
Rhan 5: Dewis allbynnau	27
Rhan 6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	40
Atodiad 1. Diffiniad o ymchwil ar gyfer REF2029.	43
Atodiad 2. Siart Trefniadaeth PCYDDS.....	44
Cymeradwyo.....	45

Rhan 1. Cyflwyniad

1. Pwrpas a Chwmpas

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn nodi dull Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o gymryd rhan yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2029. Mae'n sefydlu'r egwyddorion a'r prosesau a fydd yn rheoli dynodi contractau cyflogaeth cymwys, paratoi cyflwyniad REF y Brifysgol, a dewis a dyrannu allbynnau ymchwil.

Mae'r Cod wedi'i ddatblygu yn unol â chanllawiau REF 2029 ac mae'n berthnasol i'r holl staff academiaidd ac ymchwil perthnasol. Fe'i bwriedir i sicrhau bod penderfyniadau sy'n gysylltiedig â REF yn cael eu gwneud mewn modd sy'n deg, yn dryloyw, yn gyson ac yn gynhwysol, ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg.

Mae REF 2029 yn cyflwyno newidiadau sylweddol i'r fframwaith asesu, gan gynnwys cysylltu allbynnau ymchwil â'r sefydliad yn hytrach na'r unigolion wnaeth eu creu, h.y. datgysylltu unigolion oddi wrth allbynnau ymchwil. Mae dull PCYDDS yn adlewyrchu'r newid hwn trwy ganolbwyntio ar gyfrifoldebau sefydliadol ac amgylcheddau ymchwil, a thrwy sicrhau nad yw prosesau REF yn cael eu defnyddio i asesu perfformiad unigolion. Mae'r Cod wedi'i ddatblygu trwy ymgynghori â staff, bydd ar gael i'r cyhoedd, a bydd yn cael ei adolygu i sicrhau aliniad parhaus â chanllawiau a pholisi sefydliadol REF.

1.2. Egwyddorion

Yn sail i'r Cod Ymarfer hwn y mae'r egwyddorion canlynol, sy'n berthnasol i'r holl brosesau sy'n gysylltiedig â REF, gan gynnwys nodi Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI), dyrannu contractau ac allbynnau i Unedau Asesu (UoAs), a dewis allbynnau i'w cyflwyno.

- a) **Cadernid** Bydd PCYDDS yn cymhwyso meini prawf a gweithdrefnau a ddiffinnir yn glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a gymhwysir yn gyson, y gellir eu harchwilio a'u halinio â chanllawiau REF 2029 a gofynion adrodd HESA. Mae penderfyniadau yn ymwneud â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn seiliedig ar gyfrifoldebau contractiol a disgwyliadau rôl. Cymhwysir y meini prawf hyn yn systematig gan ddefnyddio tystiolaeth archwiliadwy a dynnir o ddisgrifyddion rôl, proffiliau gweithgarwch, a chofnodion sefydliadol.
- b) **Tryloywder.** Bydd y meini prawf, y prosesau a'r trefniadau gwneud penderfyniadau a nodir yn y Cod Ymarfer hwn ar gael yn hwylus, yn cael eu cyfathrebu'n glir a'u cymhwyso'n gyson. Bydd staff yn cael gwybod am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, y sail ar gyfer y penderfyniadau hynny, a'r llwybrau sydd ar gael i ofyn am eglurhad neu apelio.
- c) **Cydraddoldeb a Chynhwysiant.** Bydd pob penderfyniad sy'n gysylltiedig â REF yn cael ei wneud yn deg ac yn ddiduedd, gan roi sylw priodol i ddeddfwriaeth cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Y meysydd craidd yn hyn o beth yw: gwneud penderfyniadau ynghylch Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI), dyrannu contractau cymwys i unedau asesu (UoAs), dewis allbynnau a rheoli prosesau apelio. O ran y meysydd hyn, ni fydd gan unrhyw unigolyn neu grŵp fantais neu anfantais ar sail nodweddion gwarchodedig, statws contractiol neu batrwm gwaith. Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, cyfnod penodol ac annodweddiadol yn cael eu trin yn deg. Defnyddir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol anfwriadol, cyn ac ar adeg gwneud penderfyniadau. Bydd apelïadau a mecanweithiau adolygu yn annibynnol, yn amserol ac yn hygyrch.

- d) **Y Gymraeg.** Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Caiff unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mhob proses sy'n gysylltiedig â REF, a darperir trefniadau dwyieithog priodol i sicrhau nad oes unrhyw anfantais yn deillio o'r dewis o iaith.
- e) **Iaith Arwyddion Prydain.** Ni fydd unigolion sydd angen defnyddio iaith Arwyddion Prydain yn cael eu trin yn llai ffafriol o fewn prosesau sy'n gysylltiedig â REF. Bydd cymorth priodol ac addasiadau rhesymol yn cael eu darparu i alluogi cyfranogiad llawn a theg.

1.3. Polisïau Sefydliadol

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn gweithredu yng nghyd-destun strategaethau a pholisïau sefydliadol ehangach PCYDDS, gan gynnwys ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol, Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a Safonau'r Gymraeg. Mae'n adlewyrchu arfer gorau'r sector o ran asesu ymchwil yn gyfrifol, gan gynnwys egwyddorion y Datganiad ar Asesu Ymchwil (DORA) a Maniffesto Leiden, ac yn pwysleisio adolygu gan gymheiriaid arbenigol, barn ansoddol, a chydabyddiaeth o wahanol fathau o gyfraniad ac allbwn ymchwil.

Mae'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y Cod hwn yn adeiladu ar y rhai a fabwysiadwyd ar gyfer REF 2021, gan gynnal parhad mewn tryloywder, cysondeb, atebolrwydd a chynhwysiant, tra'n adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer REF 2029 a gwersi a ddysgwyd o ymarferion blaenorol. Mae'r camau a gymerwyd ers REF 2021 i fynd i'r afael ag ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu crynhoi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon a'u hadlewyrchu yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n llywio'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yma.

1.4. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) wrth ddatblygu'r Cod Ymarfer hwn, yn unol â gofynion PCYDDS a chanllawiau REF 2029. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn Rhan 6. Cynhelir EIA ochr yn ochr â drafftio'r holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gan sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf. Cyfrannodd yr EIA yn uniongyrchol at ddylunio prosesau yn ymwneud â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), Annibyniaeth Ymchwil (RI), dyrannu contractau i Unedau Asesu (UoAs), a dewis allbynnau, gan ddarparu sicrwydd bod y Cod yn deg, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. Mae Rhannau 2, 3, 4 a 5 yn manylu ymhellach ar y camau gweithredu a gymerir yn ystod y broses o wneud penderfyniadau allweddol ynghylch dynodi staff ag SRR (Rhan 2), dynodi staff ag RI (Rhan 3), mapio contractau i unedau asesu (Rhan 4) a Dewis Allbynnau (Rhan 5).

1.5. Diweddariad ar Gamau Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ers REF 2021

Ers REF2021, mae'r Brifysgol wedi cryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff ac ymchwilwyr ôl-raddedig trwy gyfres o ddatblygiadau strategol. Trwy ymgynghori, datblygwyd a gweithredwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae'r gefnogaeth ar gyfer llesiant myfyrwyr wedi ehangu'n sylweddol, gyda chreu Uned Lesiant bwrpasol, rhagor o adnoddau, a chyflwyno darpariaeth iechyd meddwl 24/7 i staff a myfyrwyr. I fyfyrwyr, mae polisïau newydd sy'n seiliedig ar drawma, gan gynnwys y fframwaith Achos Pryder, wedi gwella llwybrau adrodd a chefnogaeth i'r rhai sy'n datgelu niwed. Mae mentrau wedi'u targedu, fel yr ymgyrch Urddas Mislif, wedi mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ac wedi cefnogi'r rhai sy'n wynebu caledi. Mae diwylliant a chymuned gynhwysol wedi'u datblygu ymhellach drwy'r rhaglen CYSYLLTU, hyfforddiant ar duedd ddiawybod a Chydraddoldeb Hil, a'r wobwr efydd ar gyfer Siarter Cydraddoldeb Hil AU Ymlaen ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r Brifysgol wedi cryfhau cynhwysiant anabledd trwy gael achrediad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a gwella'r gallu i arwain trwy raglen datblygu arweinyddiaeth dosturiol. Mae'r Sefydliad wedi parhau i fuddsoddi yn natblygiad

ei staff, yn enwedig rhaglenni sy'n cefnogi cynnydd cymuned amrywiol. Er enghraifft, rhaglenni AU Ymlaen, Aurora ac Arallgyfeirio Arweinyddiaeth, Rhaglen Springboard Academi Cymru i fenywod a Rhaglen Navigator Academi Cymru ar gyfer dynion. Mae'r ymgysylltu â staff wedi gwella drwy arolygon pwls, arolwg staff y Siarter Cydraddoldeb Hil a rhaglen newydd Cymorth i Weithwyr, tra bod datblygu systemau AD wedi arwain at well Gwybodaeth Rheoli. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn wedi cyfrannu at gynnydd mesuradwy, gan gynnwys gostyngiad yn y bwlch cyflog rhywedd cymedrig o 9.7% yn 2019 i 3.8% yn 2025, ac wedi gwella'r amgylchedd sefydliadol ar gyfer staff ac ymchwilwyr ôl-raddedig.

Rhan 2. Dynodi Contractau Staff â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR)

2. Polisiâu a Gweithdrefnau PCYDDS:

Mae PCYDDS yn brifysgol a arweinir gan addysgu sy'n ymgymryd ag ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth yn unol â'r pedair cenhadaeth a nodir yn ei Strategaeth Ymchwil ac Arloesi (2030). Mae'r rhan fwyaf o staff academiaidd yn cael eu cyflogi ar gontractau addysgu ac ymchwil, gyda dyletswyddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol trwy'r Proffil Gweithgarwch Staff Academiaidd. Disgwylir i tua 17% o'r staff hyn ymgymryd â gweithgarwch ymchwil sylweddol bob blwyddyn. O fewn y cyd-destun strategol a gweithredol hwn, nid yw statws contractiol ar ei ben ei hun felly yn dynodi'n ddibynadwy y staff hynny sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR). Mae'r adran hon o'r Cod Ymarfer yn nodi meini prawf, prosesau, profion penderfynu, a mesurau cydraddoldeb y Brifysgol ar gyfer dynodi staff y mae eu contractau'n cynnwys SRR. Mae meini prawf ar gyfer staff ar gontractau ymchwil yn unig wedi'u nodi yn Rhan 3, lle mae'r asesiad yn seiliedig ar Annibyniaeth Ymchwil yn hytrach nag SRR.

2.1. Dynodi contractau SRR

Staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) yw'r rhai y mae eu rôl yn cynnwys disgwyliad penodol i ymgymryd ag ymchwil annibynnol, gyda chymorth dyraniad clir o amser ac adnoddau. Mae'r disgwyliad hwn yn elfen gydnabyddedig a sylweddol o ddyletswyddau contractiol yr unigolyn. Ar gyfer staff ar gontractau Addysgu ac Ymchwil, bydd statws SRR yn cael ei adolygu'n flynyddol gan gyfeirio at Broffil Gweithgarwch Staff Academiaidd pob unigolyn. Caiff y meini prawf a'r dangosyddion a nodir yn Nhablau 2.1 - 2.5 eu cymhwyso'n gyson ac yn dryloyw wrth ddynodi SRR. Ni chaiff dangosyddion eu trin fel trothwyon isaf, a gellir dynodi bod gan staff gyfrifoldebau sylweddol am ymchwil heb fodloni'r holl ddangosyddion, ar yr amod bod y gofyniad mynediad yn cael ei fodloni.

Trothwy mynediad:

- a) Rhaid dyrannu o leiaf 10% o'r oriau contractiol blynyddol yn benodol i weithgarwch ymchwil, fel y nodir yn Nhabl 2.1. Mae'r trothwy hwn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer REF 2021.

Ar ôl bodloni'r trothwy mynediad, bernir bod gan aelod o staff gyfrifoldebau sylweddol am ymchwil (SRR) pan fyddant yn bodloni o leiaf un dangosydd ychwanegol ym mhob un o'r categorïau canlynol, fel y nodir yn Nhabl 2.2:

- b) Disgwyliad rôl y swydd
- c) Gweithgarwch ymchwil annibynnol

Enghraifft 1	1.0 CALI	
Trothwy SRR (isaf)	10.00%	
	Cyfanswm Orlau Cynhyrchol	Dyraniad Ymchwil
Orlau Academiaidd (cynhyrchol)	1584	158
Wythnosau (cynhyrchol)	42.5	4.3
Orlau Ymchwil Wythnosol Cyfartalog	3.7	
Enghraifft 2	0.5 CALI	
Trothwy SRR (isaf)	10.00%	

	Cyfanswm Oriau Cynhyrchol	Dyraniad Ymchwil
Oriau Academaidd (cynhyrchol)	792	79
Wythnosau (cynhyrchol)	21.25	2.15
Oriau Ymchwil Wythnosol Cyfartalog	1.9	

(Tabl 2.1). Methodoleg ar gyfer pennu 10% o'r oriau cynhyrchol blynyddol

Mae'r fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifo'r trothwy mynediad a chymhwyso'r dangosyddion ychwanegol wedi'i nodi yn Nhablau 2.2–2.5.

Meini Prawf	Dangosydd	Trothwy Mynediad
Mae amser ac adnoddau penodol ar gael ar gyfer ymchwil	Cyfran benodol o'r amser wedi'i ddyrannu ar gyfer ymchwil, a bennir yng nghyd-destun arferion y sefydliad a'i gymhwyso mewn ffordd gyson trwy ddyrannu ymchwil mewn model llwyth gwaith neu gynllun cyfatebol.	Dyraniad ymchwil yn y Proffil Gweithgarwch yn 10% o leiaf o'r oriau contractiol blynyddol.
Meini Prawf	Dangosydd	Prawf
Disgwyliad rôl y swydd	Cyfrifoldebau ymchwil cyfredol fel y nodir yn y disgwyliadau ymchwil fesul rôl.	Wedi'u nodi mewn disgrifiadau swyddi, contract cyflogaeth, proffil gweithgarwch a / neu arfarniadau a chynlluniau datblygu gyrfa neu ymchwil neu amcanion datganedig.
Cymryd rhan weithredol mewn ymchwil annibynnol	Cymhwysra i wneud cais am gyllid ymchwil fel Arweinydd Prosiect, Cyd-Arweinydd Prosiect, neu Gydymaith Ymchwil ac Arloesi.	Meddu ar PhD neu brofiad proffesiynol perthnasol arall. Byddai disgwyl i Gymdeithion Ymchwil ac Arloesi fel y'u diffinnir gan UKRI arwain pecyn gwaith o fewn rhaglen ymchwil sydd wedi'i diffinio'n glir (fel y nodir isod).
	Arwain grŵp ymchwil neu becyn gwaith sylweddol o fewn rhaglen ymchwil sydd wedi'i diffinio'n glir	Adolygiad o amcanion ymchwil ac allbynnau disgwylidig. Cyfrifoldeb clir a archwilir am gyfrifoldebau arwain ymchwil.
	Mewnbwn sylweddol i ddylunio, cynnal a dehongli'r ymchwil.	Adolygiad o'r rhaglen neu'r prosiect ymchwil. Tystiolaeth archwiliadwy o fewnbwn sylweddol i ddylunio, cynnal a dehongli'r ymchwil, er enghraifft drwy allbynnau ymchwil unigol neu a gydawdurwyd a cheisiadau grant ar y cyd.
	Dal cymrodoriaeth a enillwyd yn annibynnol, a ddyfarnwyd yn gystadleuol lle mae annibyniaeth ymchwil yn ofyniad	Adolygiad o delerau ac amodau cymhwysra a'r dyfarniad. Research Fellowships demonstrating research independence for REF 2029 volume measure – REF 2029

Tabl 2.2. Meini prawf ar gyfer staff sydd â chyfrifoldeb sylweddol am ymchwil

2.2. Gwneud Penderfyniadau, Tryloywder a Chyfathrebu

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod cymhwyso meini prawf Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) yn gynhwysol, yn deg ac yn anwahaniaethol. Bydd yr holl feini prawf yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn dryloyw ar draws y Brifysgol, heb ragfarn, i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn cymuned ymchwil PCYDDS. Defnyddir un broses ar draws y sefydliad gyfan, heb unrhyw amrywiad lleol.

Mae'r dull o ddynodi contractau ag SRR wedi'i alinio'n fras â'r egwyddorion a nodir yng Nghod Ymarfer REF 2021 y Brifysgol, gyda mân ddiwygiadau i adlewyrchu newidiadau yn fframwaith asesu REF 2029 a'r gwersi a ddysgwyd o REF 2021. O ganlyniad, bydd y broses yn gyfarwydd i staff academiaidd, sydd hefyd wedi cael cyfleoedd i roi adborth wrth ddatblygu Cod Ymarfer REF 2029.

Wedi i'r polisi gael ei gymeradwyo gan Medr, caiff ei gyhoeddi ar dudalen fewnwyd bwrpasol REF 2029, sy'n hygyrch i holl staff PCYDDS. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan raglen o sesiynau briffio staff yn esbonio egwyddorion a gweithredu'r broses SRR.

2.3. Proses: Proffil Gweithgarwch Staff Academiaidd

At ddibenion dynodi contractau â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), mae'r Brifysgol yn cymhwyso'r broses ganlynol:

- a) Mae'r Brifysgol yn defnyddio Proffil Gweithgarwch Staff Academiaidd safonol, a gwblheir yn flynyddol gan y Cyfarwyddwr Academiaidd perthnasol (fel y rheolwr llinell) a'i gymeradwyo gan Ddeon yr Athrofa. Mae proffiliau'n cael eu pennu ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd a'u cyfathrebu i staff yn unol â phrosesau rheoli llwyth gwaith sefydledig ym mhob Athrofa.
- b) Bydd Deon yr Athrofa'n rhoi rhestr o staff i'r Rheolwr REF y mae eu Proffiliau Gweithgarwch yn bodloni'r trothwy mynediad sef o leiaf 10% o'r oriau contractiol blynyddol wedi'u dyrannu'n benodol i weithgarwch ymchwil.
- c) Bydd y Rheolwr REF yn adolygu'r staff hynny i benderfynu a ydynt yn bodloni'r meini prawf sy'n ymwneud â (i) disgwyliad rôl y swydd a (ii) gweithgarwch ymchwil annibynnol. Lle bo angen, efallai bydd y Rheolwr REF yn ymgynghori â'r aelod o staff, y Cyfarwyddwr Academiaidd, arweinwyr ymchwil yr Athrofa, Adnoddau Dynol, neu bartïon perthnasol eraill i sicrhau asesiad cywir o'r disgwyliadau a'r gweithgarwch ymchwil cyfredol. Cedwir cofnod clir o'r penderfyniad a'r rhesymeg.
- d) Bydd y data sy'n deillio o hyn yn cael eu hadolygu ac yn destun proses sicrhau ansawdd gan y Grŵp Rheoli REF. Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cyfrannu at lunio adroddiad staff blynyddol i HESA a bydd yn cadarnhau cymhwystra yn unol â gofynion REF2029. Dim ond staff ar gontractau 'addysgu ac ymchwil' gydag SRR, a chontractau 'ymchwil yn unig' sy'n bodloni'r prawf ar gyfer Annibyniaeth Ymchwil (RI), fydd yn cael eu cynnwys yn y mesuriad maint ar gyfer REF2029. Bydd staff ar gontractau 'addysgu yn unig' yn cael eu heithrio, hyd yn oed pan fo elfennau o feini prawf SRR neu RI yn cael eu bodloni. Cymhwysir gwiriadau penodol i REF yn achos staff a delir fesul awr sy'n gweithio yn rhannol neu'n llwyr dramor, neu sydd â chontractau lluosog.
- e) Bydd y Rheolwr REF yn ysgrifennu at yr holl staff yn unigol i gadarnhau canlyniad y broses ac ar ba sail y nodwyd bod ganddynt, neu nad oes ganddynt, SRR. Bydd yr ohebiaeth hon yn cynnwys manylion y broses apelio.
- f) Er bod Proffiliau Gweithgarwch yn cael eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, adroddir statws SRR i HESA yn ôl-weithredol yn ystod y cyfnod adrodd dilynol (Medi-Tachwedd). Cyn eu cyflwyno, bydd y Rheolwr REF yn ail-gadarnhau categorïau SRR gyda'r Deon Athrofa perthnasol i sicrhau cywirdeb ac aliniad â dyletswyddau a gyflawnwyd dros y flwyddyn academiaidd. Bydd unrhyw newid i'r statws SRR yn cael ei fynegi i'r aelod staff yr effeithir arno.
- g) Er bod dyraniadau ymchwil yn gyffredinol sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn, gall addasiadau godi oherwydd newidiadau mewn llwyth gwaith, adnoddau, patrymau gweithio, neu ddyheadau gyrfa cytunedig trwy broses Adolygu Perfformiad a Datblygiad (PDR) y Brifysgol (gweler Adran 2.22), neu ofynion gweithredol eraill. Gall newidiadau

o'r fath arwain at ddyraniadau yn disgyn o dan y trothwy mynediad neu ddileu statws SRR. I'r gwrthwyneb, gall staff symud i SRR neu dderbyn mwy o ddyraniadau ymchwil mewn ymateb i ffactorau fel llwyddo i sicrhau grant, ymrwymadau prosiect, neu arwain mentrau ymchwil ac arloesi strategol. Mae'r holl newidiadau'n cael eu pennu gan anghenion strategol a gweithredol yr Athrofa a'r Brifysgol.

2.4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Bydd monitro ar gyfer unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r broses a ddisgrifir yn **Rhan 6**, ac amlinellir proses apelio yn Adran 2.19 a 2.20.

2.5. Amgylchiadau Staff Unigol

Nid yw Amgylchiadau Staff Unigol yn nodwedd o REF 2029, gan leihau baich yr ymarfer yn sylweddol. Mae datgysylltu allbynnau a staff yn cynnwys dileu'r gofyniad i'r holl staff a gyflwynir gyflwyno o leiaf un allbwn. Mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu dull y Brifysgol o sgrinio ar gyfer unrhyw ganlyniadau andwyol o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a mynd i'r afael â'r canlyniadau hynny.

2.6. Meini prawf yn seiliedig ar Broffil Gweithgarwch Staff Academaidd

Mae Proffil Gweithgarwch Staff Academaidd y Brifysgol yn dyrannu llwyth gwaith mewn pedwar maes:

- **Adran A.** Addysgu a Goruchwylio Ffurfiol wedi'i Amserlennu.
- **Adran B.** Paratoi ar gyfer Addysgu, Asesu a Marcio
- **Adran C.** Gwaith gweinyddu Ysgol / Cyfadran
- **Adran D.** Ymchwil a ariennir a gweithgarwch Masnachol ac Allanol a ariennir

Mae'r holl weithgarwch yn Adrannau A a B y tu allan i gwmpas SRR ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y cyfrifiad o 10% o'r trothwy mynediad. Yn Adran C, mae'r holl weithgarwch a restrir, fel Rheoli Rhaglenni, Aelodaeth Pwyllgor, Marchnata a Chymorth Derbyniadau i Fyfyrwyr, y tu allan i Gwmpas SRR. Mae Gweithgarwch Ysgolheigaidd yn adran C yn gysylltiedig yn gyffredinol â swyddogaethau gweinyddol, megis gwasanaethu ar y pwyllgorau sy'n ymwneud ag ymchwil ac mae y tu allan i Gwmpas SRR. Dim ond y gweithgareddau hynny sy'n bodloni diffiniad REF o ymchwil fel 'proses ymchwilio sy'n arwain at fewnwelediadau newydd, a rennir yn effeithiol' ddylai gael eu cofnodi fel Ymchwil ac o fewn cwmpas SRR. Er enghraifft:

Gweithgarwch Adran C	O fewn Cwmpas SRR	Nodiadau
Astudiaeth Ymchwil Ôl-raddedig (e.e. MPhil / PhD / EdD / ProfDoc)	N	Astudio am radd ymchwil fel datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Nid yw'n bodloni'r meini prawf ymchwil annibynnol.
Rheoli Rhaglen	N	Gweithgarwch gweinyddol sy'n academiaidd-gysylltiedig waeth beth fo math a lefel y rhaglen (e.e. Prof Doc, MRes)
Wythnos Datblygu Staff	N	DPP a gweithgarwch ysgolheigaidd. Nid yw'n bodloni diffiniad REF o ymchwil
Arsylwi Cymheiriaid	N	DPP a gweithgarwch ysgolheigaidd. Nid yw'n bodloni diffiniad REF o ymchwil
Mynychu cynhadledd	Y	Dylid ei gynnwys os yw'r gynhadledd academiaidd yn cynnwys cyflwyno ymchwil wreiddiol
Cynhyrchu monograffau ymchwil, erthyglau ac allbynnau eraill	Y	Dylid cynnwys hyn o ran amser a neilltuwyd i allbynnau ymchwil. Peidiwch â chynnwys amser sy'n gysylltiedig â gwerslyfrau, ymgynghori â

		gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth os nad yw'n ymgorffori ymchwil wreiddiol
Awduro gwerslyfrau	N	Nid yw'n bodloni diffiniad REF o ymchwil
Awduro adroddiadau trosglwyddo gwybodaeth neu ymgynghori	Yn dibynnu	Dylid eu cynnwys dim ond os ydynt yn bodloni'r diffiniad o Ymchwil Gymhwysol, fel y nodir yn Nhabl 2.6.
Arholi Allanol (e.e. PhD)	N	Gweithgarwch ysgolheigaidd yn hytrach nag ymchwil hunangyfeiriedig.
Cadeirydd Viva PhD	N	Gweithgarwch ysgolheigaidd yn hytrach nag ymchwil hunangyfeiriedig.
Diwrnodau Ymchwil y Gyfadran	N	Gweithgarwch ysgolheigaidd a CPD yn hytrach nag ymchwil hunangyfeiriedig.
Gweithdai	N	Gweithgarwch ysgolheigaidd a CPD yn hytrach nag ymchwil hunangyfeiriedig.
Coleg Adolygu Cymheiriaid	N	Gweithgarwch ysgolheigaidd yn hytrach nag ymchwil hunangyfeiriedig.

Tabl 2.3. Adran C o'r Proffil Gweithgarwch Staff Academaidd

Mae Adran D yn ymdrin ag ymchwil a ariennir, a gweithgarwch masnachol ac allanol arall a ariennir. Mae gweithgarwch masnachol ac allanol fel arfer y tu allan i gwmpas SRR, oni bai ei fod yn ymgorffori ac yn cynhyrchu deunyddiau ymchwil newydd:

Gweithgarwch Adran D	O fewn Cwmpas SRR	Nodiadau
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2029	Y	Amser a neilltuwyd i ymgymryd ag Ymchwil Academaidd neu Gymhwysol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at weithgarwch neu allbynnau ymchwil.
Prosiect Allanol - Ymchwil	Y	Mae'n cynnwys prosiectau sydd ag ymchwil wreiddiol fel eu prif bwrpas, yn unol â diffiniad REF o ymchwil fel proses ymchwilio sy'n arwain at fewnwelediadau newydd, a rennir yn effeithiol. Bydd y rhain fel arfer yn cynnwys grantiau ymchwil Cyngorau Ymchwil, elusennau ymchwil, Horizon Europe, neu Innovate UK.
Prosiect Allanol - Cyfnewid Gwybodaeth	Yn dibynnu	Fel arfer nid yw o fewn cwmpas SRR, pan fo'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar hyfforddi, lledaenu, adfywio, neu gymhwyso gwybodaeth bresennol. Gellir ei gynnwys pan fo'r prosiect yn bodloni diffiniad y Brifysgol o ymchwil gymhwysol ac yn cynnwys cynhyrchu mewnwelediadau ymchwil newydd.
Prosiect Allanol – Masnachol	Yn dibynnu	Fel arfer y tu allan i cwmpas SRR fel gweithgarwch manteisio ar wybodaeth neu fasnacheiddio. Gellir ei gynnwys pan fo'r gweithgarwch yn amlwg yn ymchwil gymhwysol ac yn arwain at fewnwelediadau ymchwil newydd, fel y'u diffinnir yn Nhabl 2.6.
Cyflwyniadau i Gynadleddau	Y	Fe'u cynhwysir lle mae'r gweithgarwch yn ymwneud â chyflwyno canfyddiadau ymchwil gwreiddiol mewn cynhadledd academaidd. Mae presenoldeb, digwyddiadau hyfforddi, neu lledaenu gwybodaeth heblaw ymchwil wedi'u heithrio.

Tabl 2.4. Adran D o'r Proffil Gweithgarwch Staff Academaidd

2.7. Categoriâu

Pan fo unrhyw amwysedd neu amheuaeth, dylid cyfeirio at y diffiniadau canlynol:

Gweithgarwch	Trothwy ar gyfer SRR	Nodiadau
Ymchwil academiaidd. Fe'i gelwir hefyd yn ymchwil pur neu sylfaenol, sy'n cynnwys ymchwiliad archwiliadol gyda'r nod o gynhyrchu gwybodaeth neu ddealltwriaeth newydd heb gymhwysiad ymarferol ar unwaith.	10% o'r oriau contractiol blynyddol	Dyrennir amser ac adnoddau ar gyfer ymchwil i staff uwchlaw'r trothwy yn eu Proffil Gweithgarwch blynyddol. Cefnogir staff islaw'r trothwy yn eu dyheadau ymchwil gyda thargedau clir. Gellir cefnogi staff i ddringo'r 'ysgol ymchwil' a symud ymlaen i 'gyfrifoldeb sylweddol' yn unol â'u proffil gweithgarwch blynyddol.
Ymchwil ac arloesi cymhwysol Ymchwiliad systematig, a yrrir gan effaith, sy'n integreiddio gwybodaeth ddisgyblaethol a phroffesiynol i fynd i'r afael â heriau'r byd go iawn a chynhyrchu mewnwelediadau ymchwil newydd.	10% o'r oriau contractiol blynyddol	Dyrennir amser ac adnoddau ar gyfer ymchwil i staff uwchlaw'r trothwy yn eu Proffil Gweithgarwch blynyddol. Cefnogir staff islaw'r trothwy yn eu dyheadau ymchwil gyda thargedau clir. Gellir cefnogi staff i ddringo'r 'ysgol ymchwil' a symud ymlaen i 'gyfrifoldeb sylweddol' yn unol â'u proffil gweithgarwch blynyddol.
Ysgolheictod uwch. Yn cynnwys ysgolheictod integreiddio a chymhwyso, sy'n ymwneud â syntheseiddio neu gymhwyso gwybodaeth bresennol gan arwain at ddeilliannau fel eiddo deallusol.	Heb ei gynnwys yn y trothwy	Ni ddisgwylir ymchwil wreiddiol fel y'i diffinnir gan REF. Mae'n bosibl y caiff allbynnau eu cynhyrchu yn seiliedig ar wybodaeth sy'n bodoli eisoes. Lle bo gweithgarwch yn datblygu'n ymchwil gymhwysol sy'n cynhyrchu mewnwelediadau newydd, gellir ei ailddosbarthu yn unol â hynny.
Ysgolheictod addysgu. Gwaith sy'n trosglwyddo gwybodaeth a hefyd yn ei thrawsnewid a'i hymestyn ac yn cynnwys adfyfrio beirniadol ar arferion addysgu a gyhoeddir i'w hadolygu – gan arwain at ddatblygu, er enghraifft, gwricwla newydd a rhaglenni newydd	Heb ei gynnwys yn y trothwy	Ni ddisgwylir ymchwil wreiddiol. Fel arfer, ni fydd gan staff yn y categori hwn unrhyw allbynnau ymchwil, er y gall fod cyhoeddiadau / cyflwyniadau o fathau eraill.
Cyfnewid gwybodaeth / masnacheiddio: Creu gweithgarwch economaidd hyfyw sy'n deillio o wybodaeth staff neu fyfyrwyr prifysgol a grëwyd trwy ysgolheictod a / neu ymchwil, gan arwain at ffrydiau newydd o gynhyrchu incwm.	Heb ei gynnwys yn y trothwy	Nid yw hyn fel arfer yn un o ddisgwyliadau ymchwil wreiddiol, er y gall mathau eraill o allbwn neu effaith ddeillio o'r prosesau cyfnewid gwybodaeth a/neu fasnacheiddio. Felly, gall staff yn y categori hwn gael allbynnau o fathau eraill yn seiliedig ar wybodaeth bresennol yn hytrach nag ymchwil newydd. Os yw'r cyfnewid gwybodaeth yn cynhyrchu mewnwelediadau ymchwil newydd, yna'r ffordd orau o ystyried yr agwedd hon ar y gweithgarwch yw fel 'ymchwil gymhwysol'.

Tabl 2.5. Gweithgareddau academiaidd a throthwyon

2.8. Staff, Pwyllgorau, a Hyfforddiant


Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i sicrhau atebolrwydd, tryloywder, cysondeb a chynhwysiant yn ei chynllunio ar gyfer REF 2029. I gefnogi'r ymrwymiad hwn, mae wedi sefydlu cyfrifoldebau swyddogaethol clir i sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer: (a) penodi staff dynodedig; a (b) ffurfio pwyllgorau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â dynodi staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI), a dewis allbynnau ymchwil, wedi'u dogfennu'n llawn a'u cefnogi gan gylch gorchwyl priodol. Mae'r rolau, y cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau manwl sy'n llywodraethu'r cyrff hyn wedi'u nodi isod.

2.9. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Cod Ymarfer REF 2029 yn gweithredu o fewn fframwaith Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (SEP) 2024–28. O safbwynt llywodraethu, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae Cadeirydd y Grŵp Rheoli REF yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio REF 2029 yn cydymffurfio â Chod Ymarfer REF 2029 a bod yr holl weithdrefnau'n cyd-fynd â'r SEP a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

2.10. Proses gwneud penderfyniadau.

Mae'r broses o wneud penderfyniadau rhwng pwyllgorau sefydlog a byrddau'r Brifysgol, sy'n llywodraethu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cod Ymarfer, fel y'i dangosir yn Ffigur 1.



Ffigur 1. Proses gwneud penderfyniadau.

2.11. Y Senedd

Y Senedd yw prif awdurdod academiaidd y Brifysgol, sy'n gyfrifol am lywodraethiant academiaidd, safonau, ansawdd a datblygiad academiaidd strategol ar draws darpariaeth a addysgir ac ymchwil. Gyda chefnogaeth Pwyllgorau Sefydlog a Byrddau Athrofeidd, mae'n cymeradwyo rheoliadau academiaidd, polisïau, dyfarniadau a'r portffolio academiaidd, gan gynnwys gweithgarwch ymchwil a masnacheiddio, ac yn ystyried materion a atgyfeiriwyd gan y Cyngor neu'r Is-Ganghellor. Mae'r Senedd yn cael ei chadeirio gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) ac mae'n cynnwys uwch swyddogion, cynrychiolwyr yr Athrofeidd, a chynrychiolaeth o blith y myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a'r pedwar Bwrdd Athrofa yn Bwyllgorau

Sefydlog y Senedd. Ar gyfer REF 2029, mae gan y Senedd gyfrifoldeb terfynol am gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a Chod Ymarfer REF. Mae'n cymeradwyo SRR, Annibyniaeth Ymchwil, a phrosesau dewis allbynnau, yn derbyn sicrwydd ar gydymffurfiaeth, effeithiau ar gydraddoldeb, ac apeliadau, ac yn darparu goruchwyliaeth strategol i sicrhau cymhwyso cyson ar draws y Brifysgol.

2.12. Yr Athrofeidd

Mae'r Brifysgol wedi'i threfnu'n bedair Athrofa, pob un yn gyfrifol am glystyrau o ddarpariaeth academiaidd, ymchwil ac arloesi. Arweinir y gwaith o oruchwyllo ansawdd gan Ddeoniaid Cynorthwyol, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwyr Academiaidd a Rheolwyr Rhaglenni. Mae gan bob Athrofa Fwrdd Athrofa sy'n gyfrifol am ansawdd, cyfoethogi a gweithgarwch ymchwil ac arloesi, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd.

2.13. Byrddau Athrofeidd

Mae Byrddau Athrofeidd yn darparu arweinyddiaeth strategol o fewn eu Hathrofeidd ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith rheoleiddio a sicrhau ansawdd y Brifysgol. Maent yn goruchwyllo ansawdd a chyfoethogi, dysgu ac addysgu, profiad myfyrwyr, ymchwil ac arloesi, partneriaethau a datblygu staff, ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd. Caiff y byrddau eu cadeirio gan Ddeon neu Bennaeth yr Athrofa (neu enwebai) ac maent yn cynnwys uwch gynrychiolwyr yr Athrofeidd, cynrychiolwyr myfyrwyr, a staff gwasanaethau proffesiynol. O ran REF 2029, mae Byrddau Athrofeidd yn derbyn adroddiadau ar gynllunio a pherfformiad ymchwil ar lefel Athrofa.

2.14. Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Mae'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (RIC) yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer ymchwil ac arloesi ac yn goruchwyllo datblygu a gweithredu Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, polisïau, a monitro perfformiad y Brifysgol. Mae'n adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth. O ran REF 2029, mae'r RIC yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â gofynion REF ar gyfer dynodi staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI), a dewis allbynnau i'w cyflwyno. Mae'n cymeradwyo ac yn monitro polisïau cysylltiedig, yn adolygu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, yn goruchwyllo apeliadau, ac yn derbyn adroddiadau sicrwydd gan y Grŵp Rheoli REF i sicrhau bod penderfyniadau'n deg, yn dryloyw ac yn cael eu cymhwyso'n gyson yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

2.15. Grŵp Rheoli REF

Mae'r Grŵp Rheoli REF yn un o weithgorau'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi; daw ei aelodau o'r pwyllgor hwnnw, sydd hefyd yn eu penodi. Mae'r Grŵp Rheoli REF yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ar gynllunio strategol a gweithredol a'r grŵp hwn sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros greu a gweithredu gwaith cynllunio a darparu cyflwyniad y Brifysgol i REF2029. Daw ei aelodau o bob un o Athrofeidd y Brifysgol a gynrychiolir ar y Pwyllgor Ymchwil, a'r Rheolwr REF.

Mae'r Grŵp Rheoli REF yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb (2010) a Chod Ymarfer REF 2029 drwy gydol y broses gynllunio. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys penderfynu a yw staff yn bodloni'r trothwy ar gyfer Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil yn seiliedig ar ddyrannu amser ac adnoddau penodol yn erbyn meini prawf disgwyliadau rôl y swydd ac annibyniaeth ymchwil, fel yr amlinellir uchod. Bydd y Grŵp Rheoli REF yn dilyn polisïau priodol y Brifysgol mewn perthynas â dilyn canlyniadau apeliadau ac unrhyw gamau sy'n ofynnol yn dilyn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n cytuno ar y dewis o allbynnau ymchwil i'w cyflwyno, yn goruchwyllo'r gwaith o nodi a monitro effaith ymchwil ac ansawdd yr amgylchedd, yn adolygu templedi REF drafft a thystiolaeth archwilio ategol, ac yn cymeradwyo fersiynau terfynol i'w cyflwyno. Mae cyfrifoldebau ychwanegol yn cynnwys adolygu a chymeradwyo data terfynol ar incwm ymchwil a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, derbyn adroddiadau gan Gyswilt Sefydliadol REF ar ddatblygu fframwaith asesu, cymeradwyo

penodiadau aseswyr allanol, cynnal ymarferion ffug REF, a sicrhau bod seilwaith technegol ar waith ar gyfer casglu data REF. Cymeradwyir aelodaeth a chyfansoddiad y Grŵp Rheoli REF, yn seiliedig ar rolau staff, arbenigedd a chysylltiadau â phwyllgorau, gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, sydd hefyd yn awdurdodi unrhyw newidiadau yn ôl yr angen.

2.16. Aelodau'r Grŵp Rheoli REF

Mae aelodaeth y Grŵp Rheoli REF wedi'i adolygu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a ddisgrifir yn Rhan 6 tra manylir isod ar y camau a gymerir i sicrhau bod aelodau'n wybodus am eu rhwymedigaethau cyfreithiol eu hunain a rhai'r Brifysgol ynghylch cydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant perthnasol.

Cadeirydd.
Rheolwr REF
Pennaeth INSPIRE
Arweinwyr Unedau Asesu Athrofeydd
Deoniaid
Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (Arweinydd Uned Asesu)
Cynrychiolydd y Coleg Doethurol
Cynrychiolydd Gwasanaethau Gwybodaeth / LIAD (i'w gadarnhau)
Aelodau Cyfetholedig (yn ôl yr angen)

2.17. Datblygiad Staff: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datblygiad a hyfforddiant staff yn gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau staff fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau yn haws i ddatblygu a chynnal diwylliant o gydraddoldeb yn yr amgylchedd gwaith a dysgu. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cynnwys Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Herio Tuedd Ddiarwybod a Thegwch Hil i sicrhau ymwybyddiaeth barhaus yn y meysydd hyn. Mynychodd Rheolwr REF hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth AU Ymlaen ym mis Ebrill 2019, gweithdy Research England ym mis Chwefror 2019 a hefyd yr un a gynhaliwyd gan yr ECU yn ystod ymarfer REF 2014 (Mawrth 2012). Bydd hefyd yn mynychu unrhyw hyfforddiant pellach a allai gael ei drefnu gan y tîm REF ar gyfer REF2029. Bydd pob aelod o'r Grŵp Rheoli REF yn ymgymryd â hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol i REF yn ystod blwyddyn academiaidd 2026-2027, waeth beth fo'u hyfforddiant blaenorol. Bydd y ddarpariaeth orfodol hon yn sicrhau dealltwriaeth gyson o ofynion cydraddoldeb REF 2029 a bydd yn cwmpasu meysydd allweddol gan gynnwys cymhwyso deddfwriaeth cydraddoldeb mewn prosesau REF, tuedd ddiaarwybod wrth wneud penderfyniadau, a thriniaeth deg ac ecwitiol o allbynnau ymchwil. Cyflwynir yr hyfforddiant trwy gyfuniad o weithdai, deunyddiau ar-lein a/neu sesiynau briffio, gyda diweddariadau'n cael eu darparu yn ôl yr angen.

2.18. Proses Apelio

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i reoli ei pharatoadau ar gyfer REF 2029 mewn modd tryloyw, cyson, atebol a chynhwysol. Bydd pob apêl yn cael ei chwblhau cyn y cyflwyniad REF terfynol. Bydd staff sy'n ymwneud ag ystyried apeliadau yn annibynnol ar y broses benderfynu wreiddiol.

Cam 1: Adolygiad Anffurfiol

Gall staff ofyn am adolygiad anffurfiol drwy e-bostio Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil yn adolygu'r penderfyniad gan ddefnyddio:

- Proffil Gweithgarwch Staff Academiaidd
- Meini prawf SRR (gan gynnwys disgwyliadau rôl, dyraniad amser ac adnoddau, ac annibyniaeth ymchwil lle bo'n berthnasol)

- Unrhyw ddogfennaeth a gwybodaeth ategol berthnasol arall.

Bydd canlyniad yr adolygiad anffurfiol yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig. Lle bo hynny'n briodol, gellir argymhell camau adfer a'u cyfeirio at y Grŵp Rheoli REF i'w cadarnhau.

Cam 2: Apêl Ffurfiol

Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys yn anffurfiol, gall staff gyflwyno apêl ffurfiol yn ysgrifenedig trwy e-bost at y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Cyfoethogi Academaidd) yn nodi'n glir y seiliau dros apelio. Caiff yr apêl ei hystyried gan **Banel Apêl** sy'n cynnwys:

- Uwch academydd heb unrhyw ran blaenorol yn y penderfyniad
- Uwch gynrychiolydd gwasanaethau proffesiynol
- Partner Busnes AD i sicrhau bod y weithdrefn gywir wedi'i dilyn.

Bydd y panel yn adolygu a yw Cod Ymarfer REF 2029 a'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol wedi'u cymhwyso'n gywir. Gall y panel gadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol neu argymhell camau cywirol. Bydd canlyniad yr apêl ffurfiol yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig a bydd yn derfynol o fewn proses REF 2029.

Mae'r broses apelio hon yn benodol ar gyfer cymhwyso Cod Ymarfer REF2029 yn gywir ac mae ar wahân i brosesau apelio eraill, e.e. y rhai sydd wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau Cwyno neu Ddisgyblu'r Brifysgol, ac mae'n dod o dan ddeddfwriaeth Datrys Anghydfodau.

2.19. Seiliau cymwys dros apelio

Mae'r seiliau dros apêl anffurfiol a ffurfiol ar gyfer staff ar gontractau 'addysgu ac ymchwil' yn cynnwys:

- a) Torri Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu ar sail y nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil/ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw/rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol.
- b) Gwall gweithdrefnol sylweddol neu fethiant i gymhwyso Cod Ymarfer REF 2029 yn gywir.
- c) Penderfyniad anghywir ynghylch gwirio trothwyon Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), yn groes i God Ymarfer REF 2029, gan gynnwys:
 - Pennu'r amser a'r adnoddau a ddyrennir ar gyfer ymchwil yn anghywir;
 - Pennu'r disgwyliad ymchwil o fewn rôl y swydd yn anghywir;
 - Pennu'r Annibyniaeth Ymchwil yn anghywir;
 - Pennu'r statws contractiol yn anghywir.
- d) Gwall ffeithiol neu weinyddol a effeithiodd yn sylweddol ar y penderfyniad.

Ni ellir defnyddio apeliadau i herio dyfarniad academaidd.

2.20. Cyfathrebu'r broses apelio.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o broses apelio REF 2029. I gefnogi hyn:

- a) Cyhoeddir y broses ar fewnwyd y Brifysgol, gyda chopïau caled ar gael gan unedau academaidd, Adnoddau Dynol, INSPIRE, ar gyfer staff heb fynediad rheolaidd i TG neu'r rhai sydd newydd ymuno â'r Brifysgol;
- b) Bydd ar gael mewn fformatau amgen a hygyrch, lle bo angen;
- c) Fe'i cyhoeddir a'i dosbarthu ar draws y Brifysgol;
- d) Fe'i cyfathrebir yn ystod sesiynau cynefino adrannol i'r holl staff academaidd ac eraill sy'n ymwneud â pharatoadau REF 2029;

- e) Gwneir trefniadau arbennig i sicrhau bod staff sy'n absennol o'r gwaith yn cael eu hysbysu'n briodol. Ar ôl mabwysiadu'r Cod Ymarfer, bydd Adnoddau Dynol yn nodi staff academiaidd sy'n absennol am resymau yn cynnwys salwch, absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, gweithdrefnau sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhyw, secondiad, gwaharddiad disgyblu, neu absenoldeb estynedig arall. Mewn achosion o'r fath, anfonir fersiwn copi caled o'r broses apelio yn uniongyrchol at yr aelod o staff.

2.21. Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (PDR)

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw, cyson a theg. Yn ogystal â phroses apelio ffurfiol REF 2029, mae'r Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (PDR) blynyddol yn darparu cyfle strwythuredig a chynhwysol i staff drafod dyheadau gyrfa ac uchelgeisiau ymchwil.

Trwy'r Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (PDR), gall staff fynegi eu hamcanion i ddatblygu fel ymchwilwyr annibynnol neu i ddal cyfrifoldeb sylweddol am ymchwil, a allai lywio Proffiliau Gweithgarwch Staff Academiaidd yn y dyfodol. Arweinir y trafodaethau hyn gan egwyddorion tegwch a chynhwysiant ac maent yn cefnogi cynnydd staff ar ba bynnag gam y maent yn eu gyrfa, a pha bynnag fath o gontract neu nodweddion gwarchodedig sydd ganddynt. Lle bo hynny'n briodol, gellir cefnogi amcanion y cytunwyd arnynt trwy gynllunio datblygiad neu addasiadau i lwyth gwaith ac adnoddau.

Mae'r dull hwn yn sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn rhai gweinyddol yn unig ond wedi'u hymgorffori mewn fframwaith datblygiadol ehangach. Bydd y Brifysgol yn monitro'r trefniadau hyn trwy asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac adolygiad cyfnodol i ddiogelu rhag rhagfarn anfwriadol. Mae apeliadau yn parhau i fod yn annibynnol ar drafodaethau PDR a phrosesau gwneud penderfyniadau gwreiddiol, a byddant yn cael eu cyfathrebu'n glir ac yn hygyrch i'r holl staff, gan gynnwys y rhai ar wyliau neu'n gweithio o bell.

2.22. Cefnogaeth ar gyfer staff ymchwil cyfnod penodol, rhan-amser a chontract

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod staff ymchwil cyfnod penodol, rhan-amser a chontract yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt o dan anfantais o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, neu gynhwysiant ym mhrosesau REF 2029. Mae'r holl weithdrefnau sy'n gysylltiedig â REF fel y nodir yn y Cod Ymarfer hwn, gan gynnwys y rhai ar gyfer nodi Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR), pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI), a dewis allbynnau, yn cael eu cymhwyso'n gyson waeth beth fo'r math o gontract neu batrwm gweithio.

Mae gan staff ar gontractau cyfnod penodol neu ran-amser, gan gynnwys staff ymchwil contract, fynediad at yr un cymorth, arweiniad a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â REF â staff ar gontractau penagored, lle mae hyn yn briodol i'w rôl. Asesir disgwyliadau ymchwil a chymhwystra ar sail dyletswyddau contractiol, amser a ddyrennir, a chyfrifoldebau rôl, yn hytrach na hyd contract neu gyfwerthedd amser llawn.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall staff ymchwil contract brofi heriau gyrfa a strwythurol penodol ac mae'n sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â REF 2029 yn ystyried eu trefniadau gwaith a'u cam gyrfa. Mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hymgorffori trwy gydol gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau REF. Darperir cyfathrebu, arweiniad a mynediad at hyfforddiant i sicrhau bod staff ymchwil cyfnod penodol, rhan-amser a chontract yn cael eu hysbysu a'u cefnogi'n briodol mewn perthynas â REF 2029.

2.23. Asesiad Blynyddol o Effaith Penderfyniadau SRR ar Gydraddoldeb

Gan ddechrau gyda blwyddyn academiaidd 2025/26, bydd y Brifysgol yn cynnal Asesiad blynyddol o Effaith yr holl penderfyniadau ynghylch Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ar

Gydraddoldeb. Bydd yr asesiad hwn yn dadansoddi'r set ddata SRR a wiriwyd gan HESA ynghyd â data nodweddiadol gwarchodedig, dyraniadau llwyth gwaith, a gwybodaeth gyd-destunol ar lefel Athrofa i sicrhau bod penderfyniadau SRR yn deg, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg. Bydd yr asesiad yn archwilio cynrychiolaeth, yn nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol neu rwystrau strwythurol sy'n effeithio ar grwpiau penodol, ac yn gwerthuso a oes angen lliniaru. Bydd canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Rheoli REF a byddant yn llywio gwelliannau parhaus i'r Cod Ymarfer. Mae cynnal yr asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) yn flynyddol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio ar adeg gwneud penderfyniadau, yn unol â disgwyliadau REF2029.

Methodoleg:

1. Pwrpas yr Asesiad	Asesu a yw dynodi staff â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) yn flynyddol yn arwain at unrhyw effaith andwyol ar staff sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a phenderfynu a yw'r broses yn cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg.
2. Sylfaen Dystiolaeth	Bydd pob asesiad blynyddol o effaith ar gydraddoldeb (EIA) sy'n ymwneud â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) yn tynnu ar: a) Gategoriâu SRR wedi'u gwirio gan HESA ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol. b) Data nodweddion gwarchodedig (oedran, hil / ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil) a gedwir mewn setiau data AD. c) Data am gontractau a dyraniad llwyth gwaith, gan gynnwys dyraniad ymchwil (trothwy mynediad) a thystiolaeth o ddisgwyliadau rôl y swydd. d) Gwybodaeth weithredol ar lefel Athrofa, gan gynnwys patrymau dosbarthu llwyth gwaith a chyd-destun yr amgylchedd ymchwil. e) Tystiolaeth ansoddol gan staff, AD, y Grŵp Rheoli REF, ac arweinwyr ymchwil yr Athrofeydd. f) Unrhyw effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
3. Dull Asesu	Ar gyfer pob nodwedd warchodedig ac ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg, cynhelir y dadansoddiadau canlynol: a) Dadansoddi cynrychiolaeth. Cymharu cyfran y staff sydd ag SRR â chyfran y staff academaidd. Nodi gor- neu dan-gynrychiolaeth y tu hwnt i amrywiad disgwylidig. b) Cymharu hydredol. Cymharu canlyniadau blwyddyn academaidd 2025/26 â phatrymau REF2021 a blynyddoedd dilynol, i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Monitro a yw camau lliniaru yn lleihau patrymau anghyfartaledd blaenorol. c) Y Gymraeg. Asesu a oes gan ymchwilwyr cyfrwng Cymraeg fynediad cyfartal at SRR.
4. Dehongli a Lliniaru	Pan ganfyddir unrhyw effaith wahaniaethol andwyol, gall camau lliniaru gynnwys: • Addasu arferion dyrannu llwyth gwaith. • Darparu llwybrau datblygu wedi'u targedu trwy PDR. • Adolygu gofynion tystiolaeth ar gyfer dangos SRR.

	• Cryfhau tryloywder a chyfathrebu. • Ymgynghori â grwpiau yr effeithir arnynt am fewnwelediad pellach. • Sicrhau mynediad dwyieithog at brosesau a chyfathrebu
5. Adroddiadau a Llywodraethiant	Asesiad a wneir gan: y Rheolwr REF, gyda chynghor gan Arweinydd Cydraddoldeb Adnoddau Dynol, a'i adolygu gan Arweinydd Safonau'r Gymraeg. Cyflwynir canfyddiadau i'r Grŵp Rheoli REF a'u nodi mewn unrhyw ddiweddariadau i'r Cod Ymarfer lle bo angen. Bydd canfyddiadau EIA SRR yn llywio'r EIA sefydliadol gronol a gyhoeddir ar ôl ei gyflwyno.
6. Cylch Adolygu Blynnyddol	Fe'i cynhelir yn flynyddol, gan ddechrau gyda set ddata SRR blwyddyn academiaidd 2025/26 (Chwefror-Mawrth 2026). Fe'i ailadroddir bob blwyddyn academiaidd yn unol â chynllun gosod proffiliau gweithgarwch a chylchoedd adrodd HESA.

Rhan 3: Pennu Annibyniaeth Ymchwil

3. Cyflwyniad.

Mae fframwaith asesu REF yn gosod rheolau cymhwysra gwahanol i staff ar gcontractau 'ymchwil yn unig' a'r rhai sydd ar gcontractau 'addysgu ac ymchwil'. Cyflogir y rhan fwyaf o staff academiaidd y Brifysgol ar gcontractau addysgu ac ymchwil a byddant yn dilyn y broses a amlinellir yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer hwn. Ar gyfer staff a gyflogir ar gcontractau ymchwil yn unig, nid yw'r trothwy mynediad ar gyfer dangos cyfrifoldeb sylweddol am ymchwil (SRR) yn berthnasol. Mae hyn oherwydd nad yw staff o'r fath fel arfer yn dal cyfrifoldebau addysgu neu ddyletswyddau gweinyddol nad ydynt yn gysylltiedig ag ymchwil, ac mae eu contractau yn diffinio ymchwil fel prif ffocws eu rôl. O ganlyniad, ystyrir bod y meini prawf sy'n ymwneud â dyrannu amser ac adnoddau ar gyfer ymchwil, ac â ymchwil fel disgwyliad o rôl y swydd, yn cael eu bodloni dan y contract. Felly, ar gyfer y staff hyn, asesir eu cymhwysra ar gyfer cyflwyno i REF yn erbyn maen prawf Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn unig.

3.1. Annibyniaeth Ymchwil ar gyfer staff ymchwil yn unig

At ddibenion REF 2029, diffinnir ymchwilydd annibynnol fel unigolyn sy'n ymgymryd ag ymchwil hunangyfeiriedig, yn hytrach na chyflawni rhaglen ymchwil unigolyn arall. Nid yw ei enwi ar allbynnau ymchwil, ar ei ben ei hun, yn golygu o reidrwydd bod contract yn gymwys i gael ei gynnwys. Mae dangosyddion Annibyniaeth Ymchwil a'u profion wedi'u rhestru yn Nhabl 3.1 isod.

Meini Prawf	Dangosydd	Prawf
Cymryd rhan weithredol mewn ymchwil annibynnol	Cymhwysra i wneud cais am gyllid ymchwil fel Arweinydd Prosiect, Cyd-Arweinydd Prosiect, neu Gydymaith Ymchwil ac Arloesi.	Meddu ar PhD neu brofiad proffesiynol perthnasol arall. Byddai disgwyl i Gymdeithion Ymchwil ac Arloesi fel y'u diffinnir gan UKRI arwain pecyn gwaith neu faes gwaith o fewn rhaglen ymchwil sydd wedi'i diffinio'n glir (fel y nodir isod).
	Arwain grŵp ymchwil neu becyn gwaith sylweddol o fewn rhaglen ymchwil sydd wedi'i diffinio'n glir	Adolygiad o amcanion ymchwil ac allbynnau disgwylledig. Cyfrifoldeb clir a archwilir am gyfrifoldebau arweinyddiaeth ymchwil.
	Mewnbwn sylweddol i ddylunio, cynnal a dehongli'r ymchwil.	Adolygiad o'r rhaglen neu'r prosiect ymchwil. Tystiolaeth archwiliadwy o fewnbwn sylweddol i ddylunio, cynnal a dehongli'r ymchwil, er enghraifft drwy allbynnau ymchwil unigol neu a gydawdurwyd a cheisiadau grant ar y cyd.
	Dal cymrodoriaeth a enillwyd yn annibynnol, a ddyfarnwyd yn gystadleuol, lle mae annibyniaeth ymchwil yn ofyniad.	Adolygiad o delerau ac amodau cymhwysra a'r dyfarniad. Gweler: Research Fellowships demonstrating research independence for REF 2029 volume measure – REF 2029

Tabl 3.1. Annibyniaeth Ymchwil

3.2. At ddibenion dynodi contractau ag Annibyniaeth Ymchwil (RI):

- Bydd Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol yn rhoi rhestr o gcontractau Ymchwil yn Unig cymwys i'r Rheolwr REF.
- Bydd y Rheolwr REF yn darparu manylion y contractau yn eu huned i bob Deon Athrofa a Chyfarwyddwr CAWCS, yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau blaenorol ynghylch Annibyniaeth Ymchwil, sy'n ymwneud â REF 2021 a REF 2014 lle mae cyflogaeth

barhaus neu flaenorol. Nodir yn hyn o beth y dylid ystyried Annibyniaeth Ymchwil yn rhywbeth parhaus, a dim ond mewn achosion eithriadol y dylid dileu annibyniaeth.

- c. Bydd Deon yr Athrofa a Chyfarwyddwr CAWCS yn gwerthuso cysylltiadau a rôl y staff priodol yn erbyn y meini prawf Annibyniaeth Ymchwil yn Nhabl 3.1, gan ymgynghori â Chyfarwyddwyr Academaidd ac arweinwyr ymchwil fel y bo'n briodol. Bydd dyfarniad o Annibyniaeth Ymchwil yn cael ei wneud, a chofnodir sail y dyfarniad.
- d. Bydd y Grŵp Rheoli REF yn adolygu'r dyfarniadau hyn i sicrhau eu bod yn gywir, yn gyson, yn wrthrychol, yn deg ac yn cael eu cymhwyso mewn ffordd dryloyw. Bydd cofnod o benderfyniadau Annibyniaeth Ymchwil yn cael ei gadw'n flynyddol.
- e. Bydd y Rheolwr REF yn ysgrifennu at yr holl staff yn unigol yn eu hysbysu am ganlyniad y broses ac ar ba sail y'u nodwyd yn rhai sydd ag/heb Annibyniaeth Ymchwil, yn unol â'r meini prawf a'r profion ar gyfer Annibyniaeth Ymchwil (RI). Bydd y neges yn hysbysu staff am y broses apelio.
- f. Gan fod Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn cael ei ystyried yn rhywbeth parhaus, bydd y neges hon ar gyfer staff sy'n bodloni statws RI yn cael ei hanfon unwaith yn unig. Ar gyfer pawb arall, caiff ei hanfon yn flynyddol

3.3. Achosion eithriadol ar gyfer cynorthwywyr ymchwil

Cyflogir cynorthwywyr ymchwil yn bennaf i gefnogi ymchwil unigolion eraill yn hytrach na dilyn ymchwil annibynnol. Cânt eu hariannu fel arfer gan grantiau ymchwil neu gontractau gan Gynghorau Ymchwil, Innovate UK, elusennau, yr Undeb Ewropeaidd (UE) neu fentrau masnachol eraill, ond gallant hefyd gael eu hariannu o gronfeydd PCYDDS ei hunan. Mewn achosion eithriadol, gall contractau cynorthwywyr ymchwil fodloni'r diffiniad o ymchwilydd annibynnol, a gellir cynnwys contractau o'r fath. Bydd angen cyfiawnhad a thystiolaeth benodol yn seiliedig ar Dabl 3.1 er mwyn eu cynnwys. Gallai hyn gynnwys manylion y ffynhonnell ariannu a'r cais am grant, tystiolaeth o ddyluniadau, rolau a chyfrifoldebau ymchwil.

3.4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Bydd monitro ar gyfer unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r broses a ddisgrifir yn Rhan 6, ac amlinellir proses apelio yn Adran 2.17.

3.5. Staff, pwyllgorau a hyfforddiant

Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer nodi staff a phwyllgorau dynodedig er mwyn pennu Annibyniaeth Ymchwil fel y'u manylir yn Adrannau 2.11 – 2.17. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am ddisgrifiadau rôl ar gyfer unigolion a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Ymchwil a'r Grŵp Rheoli REF. Darperir manylion yr hyfforddiant a ddarperir i unigolion a phwyllgorau sy'n ymwneud â dynodi staff, yr amserlen ar gyfer cyflwyno, a'r cynnwys, yn Adran 2.18

3.6. Apeliadau

Mae'r broses adborth ac apelio ar gyfer staff ar gontractau ymchwil yn unig fel y'i manylir yn Adrannau 2.19 a 2.20.

3.7. Seiliau cymwys dros apelio ar gyfer staff 'ymchwil yn unig'

Mae'r seiliau dros apêl anffurfiol a ffurfiol ar gyfer staff 'ymchwil yn unig' yn cynnwys:

- a) Torri Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwneud yn siŵr bod pobl â nodweddion gwarchodedig wedi'u hamddiffyn rhag gwahaniaethu. Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd (trawsryweddol), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil/ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw/rhywedd, a chyfeiriadedd rhywiol.
- b) Penderfyniad anghywir ynghylch statws contractiol
- c) Penderfyniad anghywir ynghylch Annibyniaeth Ymchwil ar gyfer yr aelod o staff sy'n apelio, gyda hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o ddyletswyddau, disgwyliadau dyletswyddau, a statws RI yn y gorffennol.
- d) Gwall ffeithiol neu weinyddol a effeithiodd yn sylweddol ar y penderfyniad.

Ni ellir defnyddio apeliadau i herio dyfarniad academiaidd.

3.8. Asesiad Blynyddol o Effaith Annibyniaeth Ymchwil ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud ag Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn cael eu gwneud mewn modd teg, tryloyw a seiliedig ar dystiolaeth, bydd y Brifysgol yn cymhwyso methodoleg flynyddol strwythuredig sy'n gyson â'r egwyddorion a ddefnyddir ar gyfer pennu Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR). Mae'r fethodoleg hon yn tynnu ar ddata dilysedig AD a HESA, gwybodaeth gontractiol, a gweithgarwch ymchwil wedi'i ddogfennu i asesu staff ymchwil yn unig yn erbyn dangosyddion arweinyddiaeth ymchwil annibynnol a amlinellir yn Nhabl 3.1. Bydd penderfyniadau yn ddarostyngedig i brosesau sicrhau ansawdd sefydliadol, cymhwysiad cyson ar draws Athrofeydd, a chyfathrebu uniongyrchol â staff. Adolygir y set ddata RI yn flynyddol a'i hasesu drwy Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg, ac i fonitro a yw'r broses yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar grwpiau gwarchodedig.

Methodoleg

1. Pwrpas yr Asesiad	Asesu a yw dynodi staff ag Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn flynyddol yn arwain at unrhyw effaith andwyol ar staff sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a phenderfynu a yw'r broses yn cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg.
2. Sylfaen Dystiolaeth	Bydd pob asesiad blynyddol o effaith ar gydraddoldeb (EIA) sy'n ymwneud ag Annibyniaeth Ymchwil (RI) yn tynnu ar: a) Gategorïau RI wedi'u gwirio gan HESA ar gyfer y flwyddyn academiaidd berthnasol. b) Data nodweddion gwarchodedig (oedran, hil / ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil) a gedwir mewn setiau data AD. c) Data am gontractau a dyraniad llwyth gwaith, gan gynnwys tystiolaeth o arweinyddiaeth ymchwil. d) Gwybodaeth weithredol a chyd-destun ar lefel Athrofa. e) Tystiolaeth ansoddol gan staff, AD, y Grŵp Rheoli REF, ac arweinwyr ymchwil yr Athrofeydd. f) Unrhyw effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg
3. Dull Asesu	Ar gyfer pob nodwedd warchodedig (ac ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg), cynhelir y dadansoddiadau canlynol: a) Dadansoddi cynrychiolaeth. Cymharu cyfran y staff sydd ag RI â'r gronfa o staff academiaidd. Nodi gor- neu dan-gynrychiolaeth y tu hwnt i amrywiad disgwylidig b) Dadansoddi effaith proses. Profi a yw penderfyniadau RI yn cyfateb i ffactorau strwythurol (dosbarthiad llwyth gwaith, math o gontract, cam gyrfa) a allai roi grwpiau penodol o dan anfantais yn anuniongyrchol. Asesu lle mae tystiolaeth ansoddol yn dangos rhwystrau posibl i gyfranogiad teg. c) Dadansoddi hydredol. Cymharu yn erbyn penderfyniadau RI blaenorol. Cymharu canlyniadau blwyddyn academiaidd 2025/26 â phatrymau REF2021 a blynyddoedd dilynol, i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

	Monitro a yw camau lliniaru yn lleihau patrymau anghyfartaledd blaenorol. d) Cyfrwng Cymraeg: adolygiad o ystyriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg. Asesu a oes gan ymchwilwyr cyfrwng Cymraeg statws RI cyfartal.
4. Dehongli a Lliniaru	Pan ganfyddir unrhyw effaith wahaniaethol, gall camau lliniaru gynnwys: • Addasu arferion dyrannu llwyth gwaith neu ddisgwyliadau • Cefnogi llwybrau cliriach i ddangos RI. • Adolygu gofynion tystiolaeth ar gyfer penderfynu ynghylch RI. • Cryfhau tryloywder a chyfathrebu. • Ymgynghori â grwpiau yr effeithir arnynt. • Sicrhau mynediad dwyieithog at brosesau a chyfathrebu.
5. Adroddiadau a Llywodraethiant	Asesiad a wneir gan y Rheolwr REF, gyda chynghor gan Arweinydd Cydraddoldeb Adnoddau Dynol, a'i adolygu gan Arweinydd Safonau'r Gymraeg. Cyflwynir canfyddiadau i'r Grŵp Rheoli REF.
6. Cylch Adolygu Blynyddol	Fe'i cynhelir yn flynyddol, gan ddechrau gyda set ddata RI blwyddyn academiaidd 2025/26 (Ebrill 2026). Fe'i ailadroddir bob blwyddyn academiaidd yn unol â chynllun gosod proffiliau gweithgarwch a chylchoedd adrodd HESA.

Rhan 4: Dyrannu Contractau i Unedau Asesu (UoAs)

4. Trosolwg

Mae'r adran hon yn nodi polisi a phroses PCYDDS ar gyfer dyrannu contractau cyflogaeth cymwys i Unedau Asesu (UoAs) ar gyfer REF 2029. O dan fframwaith REF 2029, datgysylltir staff yn llwyr oddi wrth allbynnau ymchwil. Golyga hyn nad yw staff unigol yn cael eu cyflwyno, ac nid oes angen i allbynnau ddilyn cartref contractiol eu hawduron. Bydd y cyrff cyllido yn cyfrifo Mesuriad Maint pob uned asesu gan ddefnyddio data gwiriedig staff a ddarperir gan PCYDDS drwy'r adroddiad blynyddol i HESA. Felly, mae dyrannu contractau i unedau asesu yn effeithio ar faint pob cyflwyniad yn unig; nid yw'n penderfynu pa allbynnau neu astudiaethau achos effaith sy'n cael eu cynnwys (gweler Rhan 5).

4.1. Mesuriad Maint

Mae'r Mesuriad Maint yn pennu nifer yr allbynnau ymchwil a'r astudiaethau achos effaith sy'n ofynnol ar gyfer pob uned asesu. Ar gyfer REF 2029, cyfrifir y Mesuriad Maint hwnnw fel a ganlyn:

- Nifer cyfartalog CALI/FTE o gontractau â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) a/neu Annibyniaeth Ymchwil (RI) ar draws Blynyddoedd Academaidd 2025/26 a 2026/27 × 2.5.

Dim ond contractau sydd wedi'u cadarnhau fel rhai sy'n bodloni SRR (fel y'i diffinnir yn Rhan 2) neu RI (fel y'i diffinnir yn Rhan 3) sy'n cyfrannu at y Mesuriad Maint. Mae dyrannu contract i uned asesu yn cefnogi'r cyfrifiad hwn ond nid yw'n cyfyngu ar ble y cyflwynir allbynnau neu astudiaethau achos effaith.

4.2. Egwyddorion sy'n Arwain Dyrannu

Bydd PCYDDS yn dyrannu contractau cymwys i unedau asesu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfiaeth a chadernid:** Bydd penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth glir, sy'n gyson â chanllawiau REF 2029 a rheolau cofnodion staff HESA.
- Tryloywder a chysondeb:** Caiff meini prawf a phrosesau eu dogfennu'n glir, eu cyfathrebu a'u cymhwyso'n gyson ar draws Athrofeydd.
- Tegwch a chynhwysiant:** Bydd penderfyniadau'n wrthrychol ac yn anwahaniaethol, gan roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Caiff yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) eu hystyried trwy gydol y broses.
- Cydluniad strategol:** Bydd dyraniadau yn adlewyrchu strwythurau ymchwil a blaenoriaethau strategol PCYDDS, gan alluogi cyflwyniadau cydlynol a chystadleuol.
- Cyfranoldeb:** Bydd prosesau yn lleihau'r baich gweinyddol diangen tra'n cynnal cywirdeb ac archwiliadwyedd.

4.3. Methodoleg

Bydd PCYDDS yn cymhwyso'r fethodoleg hon yn flynyddol ar gyfer REF 2029 a disgwylir iddi barhau i wneud hynny wedyn, gan fod cyrff cyllido'n bwriadu cyfrifo'r mesuriad maint yn barhaus gan ddefnyddio data HESA o flwyddyn academiaidd 2027–28 ymlaen. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i'r Brifysgol, trwy archwiliad, gyfiawnhau unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y data HESA a ddefnyddir yn y mesuriad maint ar gyfer REF 2029 a Chofnod Staff HESA 2027–28.

4.4. Paratoi data a chymhwysra data

- a) Mae Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol yn llunio rhestr wiriedig o gontractau sy'n bodloni SRR (Rhan 2) neu RI (Rhan 3), gan gynnwys CALI/FTE a manylion contractiol perthnasol, yn ôl y broses a nodir yn 2.3 a 3.2.
- b) Mae'r Rheolwr REF yn paratoi mapiad dros dro o gontractau cymwys i strwythurau unedau asesu drafft. Caiff y rhain eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli REF.

4.5. Meini Prawf Mapio

Bydd mapio contractau i unedau asesu (UoA) fel arfer yn aros yn sefydlog dros flynyddoedd oni bai bod newidiadau sylweddol i rôl, gweithgaredd, adnoddau sefydliadol neu strwythurau, yn cyfiawnhau adolygiad. Wrth aseinio contractau cymwys i unedau asesu, bydd y Grŵp Rheoli REF yn ystyried:

- a) Y prif faes/feysydd pwnc ac aliniad disgyblaethol y rôl a'i gweithgarwch ymchwil cysylltiedig
- b) Pa mor addas ydyw amgylchedd ymchwil yr uned asesu arfaethedig, gan gynnwys grwpiau ymchwil, canolfannau a strwythurau goruchwyllo
- c) Swydd y deiliad contract o fewn cenadaethau ymchwil strategol a meysydd her PCYDDS
- d) Pwysigrwydd cynnal cyflwyniadau cydlynol a chytbwys ac osgoi rhannu gwaith yn ddarnau llai, a allai wanhau aliniad strategol neu gynyddu cymhlethdod gweinyddol.

4.6. Dyrannu unedau asesu (UoA)

Gan gydnabod pa mor ganolog yw ymchwil rhyngddisgyblaethol a chenhadol, bydd PCYDDS yn:

- a) Dyrannu contractau i'r unedau asesu sy'n adlewyrchu orau brif gartref disgyblaethol yr amgylchedd ymchwil ategol
- b) Cyflwyno allbynnau i'r unedau asesu lle maent yn gwneud y cyfraniad academiaidd cryfaf, waeth beth fo'r dyraniad contractiol (gweler Rhan 5)
- c) Defnyddio mecanweithiau trawsgyfeirio REF lle bo hynny'n briodol ac addasu prosesau yn unol â chanllawiau diwedddaredig REF ar ffiniau unedau asesu, meini prawf paneli a chanllawiau ar gyflwyniadau, pan gaiff y rhain eu cyhoeddi
- d) Osgoi creu nifer o gyflwyniadau bach iawn lle byddai hyn yn cynyddu'r baich, yn lleihau cydlynad strategol neu ansawdd cyffredinol y cyflwyniad, tra'n sicrhau bod meysydd rhagoriaeth yn parhau i fod yn weladwy.

4.7. Sicrhau Ansawdd

Bydd PCYDDS yn sicrhau bod yr holl ddyraniadau contractau i unedau asesu yn gywir, yn cydymffurfio, yn dryloyw, ac yn rhydd o effeithiau anfwriadol ar gydraddoldeb. Bydd proses sicrhau ansawdd a goruchwyllo strwythuredig yn cael ei chymhwyso cyn cadarnhau cyflwyniadau terfynol, lle:

- a) Bydd y Grŵp Rheoli REF yn adolygu dyraniadau dros dro am gysondeb, cadernid rhesymeg, ac unrhyw effeithiau anfwriadol ar gydraddoldeb, amrywiaeth neu gynhwysiant (EDI).
- b) Bydd Adran AD y Brifysgol yn dilysu cywirdeb data ac yn cadarnhau aliniad â gofynion adrodd HESA a gofynion statudol.
- c) Bydd dyraniadau terfynol yn cael eu cymeradwyo drwy fframweithiau llywodraethu sefydliadol sefydledig PCYDDS ar REF a HESA. Bydd ymholiadau neu bryderon am broses (gan gynnwys cywirdeb data, rhesymeg mapio, neu ystyriaethau EDI) yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn Rhannau 2 a 3, gan ddarparu llwybr clir i staff godi materion neu gyflwyno apeliadau gweithdrefnol.
- d) Bydd PCYDDS yn cadw cofnodion cynhwysfawr ac archwiliadol o benderfyniadau cymhwysra (SRR/RI), mapiadau contractau i unedau asesu, gwiriadau SA, cymeradwyaethau, a chanfyddiadau EIA i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Sylwer: Ar adeg eu cyflwyno am gymeradwyaeth (Mai 2026) mae Meini Prawf a Dulliau Gweithio'r Panel a'r Canllawiau ar Gyflwyniadau yn parhau i fod heb eu cyhoeddi neu'n anghyflawn. Golyga hyn fod pwyntiau allweddol ar Fframwaith REF yn parhau i fod heb eu penderfynu, yn fwyaf arbennig **i)** disgrifyddion unedau asesu, **ii)** dulliau is-baneli penodol o drawsgyfeirio a **iii)** eithriadau o ran unedau bach. Mae'r Cod Ymarfer wedi'i ddatblygu ar y rhagdybiaeth y bydd pwyntiau **i, ii a iii** yn debyg ar y cyfan i REF2021. Os bydd penderfyniadau a gyhoeddir yn ddiweddarach yn effeithio'n sylweddol ar fwriadau cyflwyno PCYDDS, er enghraifft, drwy orfodi nifer uwch o gyflwyniadau bach, byddwn yn ceisio diwygio'r Cod Ymarfer a / neu addasu mapiad contractau i unedau asesu yn adroddiad HESA 2025/26, lle caniateir hyn.

4.8. Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant

Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer nodi staff a phwyllgorau dynodedig er mwyn pennu Annibyniaeth Ymchwil fel y'u manylir yn Adrannau 2.11 – 2.17. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am ddisgrifiadau rôl ar gyfer unigolion a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Ymchwil a'r Grŵp Rheoli REF. Darperir manylion yr hyfforddiant a ddarperir i unigolion a phwyllgorau sy'n ymwneud â dynodi staff, yr amserlen ar gyfer cyflwyno, a'r cynnwys, yn Adran 2.18.

4.9. Apeliadau

Mae'r broses adborth ac apelio ar gyfer staff ar gontractau ymchwil yn unig fel y'i manylir yn Adrannau 2.19 a 2.20. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am sut mae'r broses apelio wedi'i chyfathrebu i staff, manylion y broses, gan gynnwys sut mae achosion yn cael eu cyflwyno, manylion y rhai sy'n ymwneud â gwrando ar unrhyw apeliadau (sy'n dangos eu hannibyniaeth oddi wrth brosesau penderfynu cynharach), amserlenni a sut mae penderfyniadau'n cael eu cyfathrebu i staff.

4.10. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA):

Mae'r asesiad hwn yn gwerthuso a yw dyrannu contractau cymwys i Unedau Asesu yn arwain at unrhyw effaith andwyol ar staff â nodweddion gwarchodedig neu sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan sicrhau aliniad â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn ymwneud â chyfrifiadau Mesur Maint yn unig, ac nid yr ystyriaeth a'r dyraniad o allbynnau i Unedau Asesu, sef ble mae'r risgiau o effeithiau negyddol ar gydraddoldeb yn fwy tebygol, a rhoddir sylw iddynt yn Rhan 5.

1. Pwrpas yr Asesiad	Asesu a yw penderfyniadau ynghylch mapio contractau i unedau asesu yn creu effeithiau gwahaniaethol ar draws grwpiau gwarchodedig ac a yw'r broses yn deg, yn dryloyw ac yn cydymffurfio.
2. Sylfaen Dystiolaeth	Mae'r dystiolaeth yn cynnwys: a) Categoriâu SRR/RI wedi'u cadarnhau gan HESA; b) Data nodweddion gwarchodedig (oedran, hil / ethnigrwydd, anabled, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil) a gedwir mewn setiau data AD. c) Gwybodaeth weithredol a chyd-destun ar lefel athrofa sy'n ymwneud â gweithgarwch, strategaeth ac allbwn ymchwil. d) Rheolau a chanllawiau REF 2029.
3. Dull Asesu	Ar gyfer pob nodwedd warchodedig, gan gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg), cynhelir y dadansoddiadau canlynol:

	a) Dadansoddi cynrychiolaeth: Cymharu cyfran y staff sydd wedi'u mapio i uned asesu â chyfran y staff academiaidd yn ôl nodweddion gwarchodedig ac ystyriaethau cyfrwng Cymraeg. Nodi gor- neu dan-gynrychiolaeth y tu hwnt i amrywiad disgwylidig. b) Dadansoddi effaith proses: profi a yw penderfyniadau ynghylch mapio unedau asesu yn cyfateb i ffactorau strwythurol (dosbarthiad llwyth gwaith, math o gontract, cam gyrfa) a allai roi grwpiau penodol o dan anfantais yn anuniongyrchol. c) Dadansoddi Hydredol: adolygu lle mae amrywiadau o ran mapio contractau, er mwyn sicrhau bod newidiadau sylweddol yn seiliedig ar ffactorau gweithredol neu strategol, ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu ystyriaethau cyfrwng Cymraeg
4. Dehongli a Lliniaru	Mae camau lliniaru yn cynnwys • Adolygu rhesymeg mapio Gwell tryloywder, a chyfathrebu'r fframwaith 'datgysylltiedig' ar gyfer cyfrifiadau Mesuriad Maint
5. Adroddiadau a Llywodraethiant	Asesiad a wneir gan y Rheolwr REF, gyda chynghor gan Arweinydd Cydraddoldeb Adnoddau Dynol, a adolygir gan Arweinydd Safonau'r Gymraeg a'i adrodd i'r Grŵp Rheoli REF.
6. Cylch Adolygu Blynyddol	Fe'i cynhelir yn flynyddol, gan ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 a'i alinio â chylchoedd adrodd HESA.

Rhan 5: Dewis allbynnau

5. Cyflwyniad.

Nodwedd ganolog o REF 2029 yw **datgysylltu** allbynnau ymchwil yn llwyr oddi wrth staff / awduron unigol. Bydd y Brifysgol felly yn cyflwyno portffolio o allbynnau ymchwil, yn hytrach na staff unigol a'u hallbynnau. Bydd yr allbynnau a ddewisir yn gynrychioliadol o'r ymchwil a wneir mewn maes penodol, a byddant yn ystyried amrywiaeth o fathau o allbynnau. Gellir tynnu allbynnau o bob rhan o'r sefydliad, ar yr amod y gellir dangos **cyswllt gwirioneddol** â PCYDDS. Gan fod allbynnau ymchwil wedi'u datgysylltu'n llwyr oddi wrth staff, ni fydd **gofynion allbwn isaf** ar gyfer aelodau staff unigol. Er mwyn sicrhau bod yr allbynnau ymchwil a gyflwynir yn gynrychioliadol o waith yr Uned Asesu yn ei chyfanrwydd, rhaid i'r Brifysgol roi cyfiawnhad os yw'n cyflwyno mwy na phum allbwn sy'n gysylltiedig ag un awdur (y mae REF yn ei ddiffinio fel 'cyswllt gwirioneddol').

5.1. Cyswllt gwirioneddol

Diffinnir cyswllt gwirioneddol fel perthynas amlwg rhwng PCYDDS a'r ymchwil a gyflwynir, lle mae'r Brifysgol wedi galluogi'r ymchwil sy'n arwain at yr allbwn. Rhaid dangos tystiolaeth o hyn trwy **berthynas gyflogaeth gymwys** gydag awdur (neu unigolyn cyfatebol) sydd wedi gwneud cyfraniad ymchwil sylweddol i'r allbwn. Mae perthynas gyflogaeth gymwys yn un lle mae'r unigolyn yn cael ei gyflogi gan PCYDDS ar gontract sydd o leiaf 0.2 CALI/FTE, am o leiaf 12 mis o gyflogaeth barhaus, gyda disgwyliad penodol o weithgarwch ymchwil o fewn ei rôl. Mae'n rhaid i'r berthynas gyflogaeth fod wedi digwydd naill ai ar yr adeg y daeth yr allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, neu yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr ymchwil a arweiniodd at yr allbwn.

Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r broses hon o ddewis allbynnau ar wahân i'r prosesau a'r meini prawf a nodir yn Rhannau 2, 3 a 4. Mae'r rheiny'n ymwneud â dynodi contractau cyflogaeth sy'n bodloni trothwyon PCYDDS ar gyfer Cyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI), sydd wedyn yn pennu faint o allbynnau (ac astudiaethau achos effaith) y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu cyflwyno (a elwir yn '**fesuriad maint**'). O dan reolau REF 2029, gellir dewis allbynnau a awdurwyd gan staff heb SRR ac IR i'w cyflwyno, mewn unrhyw uned asesu berthnasol, cyn belled â bod y rheolau a'r profion a nodir yn fanwl isod yn cael eu bodloni. I grynhoi:

5.2. Gofynion craidd allbynnau cymwys

Rhaid i bob allbwn a gynhwysir yn y cyflwyniad:

- Fod yn gynnyrch ymchwil, a ddiffinnir yn gryno fel proses ymchwilio sy'n arwain at fewnwelediadau newydd, a rennir yn effeithiol.
- Fod wedi'i gyflwyno i'r parth cyhoeddus am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod cyhoeddi 1 Ionawr 2021 i 31 Rhagfyr 2028 neu, os yw'n adroddiad cyfrinachol, wedi'i gyflwyno i'r corff y mae'n gyfrinachol iddo yn ystod yr un cyfnod.
- Fod â chyswllt gwirioneddol â PCYDDS.
- Fodloni gofynion polisi Mynediad Agored REF, yn achos allbynnau o fewn cwrdd y polisi hwnnw.

5.3. Cymhwysra contractiol

Er mwyn i allbwn fod yn gymwys i'w gyflwyno:

- Rhaid bod perthynas gyflogaeth gymwys wedi bod gydag awdur (neu unigolyn cyfatebol) sydd wedi gwneud cyfraniad ymchwil sylweddol i'r allbwn.
- Fel arfer dylai'r berthynas gyflogaeth fod ar gontract sydd o leiaf 0.2 CALI/FTE am o leiaf 12 mis gyda disgwyliad penodol o weithgarwch ymchwil yn y **disgrifiydd rôl**.

- c) Mae'n rhaid bod y berthynas gyflogaeth yn bodoli ar yr adeg y daeth yr allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, neu yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr ymchwil a arweiniodd at yr allbwn.
- d) Golyga hyn (gyda rhai eithriadau ar gyfer cyhoeddiadau ffurf hir, gweler 5.11) nad yw allbynnau bellach yn 'gludadwy'. Ni ellir cynnwys y rhai a gyhoeddwyd cyn cyflogaeth yn PCYDDS yng nghyflwyniad PCYDDS, er y gall y cyflogwr blaenorol, a alluogodd yr ymchwil, wneud hynny.
- e) Mae allbynnau a gyflwynir i'r parth cyhoeddus ar ôl i weithiwr adael cyflogaeth y Brifysgol yn gymwys i'w cyflwyno o fewn dwy flynedd ar gyfer allbynnau ffurf fer, a phum mlynedd ar gyfer allbynnau ffurf hir a phroses estynedig (gan dybio bod perthynas gyflogaeth addas ar waith). Nid oes gofyniad ychwanegol i ddangos bod PCYDDS wedi galluogi'r ymchwil honno. Nid yw hyn yn berthnasol mewn achos o ddiswyddo gorfodol (gweler 5.6 a 5.12).

5.4. Datgysylltu.

Bwriad datgysylltu yw dileu'r pwysau ar unigolion i gynhyrchu nifer penodol o allbynnau dros gyfnod REF, sicrhau bod cyflwyniadau yn adlewyrchu portffolio mwy cynhwysol ac amrywiol o ragoriaeth ymchwil, a bod cyflwyniadau yn gynrychioliadol o'r ymchwil a wneir o fewn yr uned gyflwyno. Golyga hyn, yn ogystal â'r allbynnau a gynhyrchir gan staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR) a / neu sy'n Ymchwilydd Annibynnol (RI), gall allbynnau a gynhyrchir gan staff eraill fod yn gymwys i'w cyflwyno, ar yr amod:

- a) Eu bod yn gynnyrch ymchwil, a ddiffinnir yn gryno fel proses ymchwilio sy'n arwain at fewnwelediadau newydd, a rennir yn effeithiol.
- b) Eu bod wedi'u cyflwyno i'r parth cyhoeddus am y tro cyntaf rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2028.
- c) Eu bod yn bodloni gofynion mynediad agored (lle bo'n berthnasol).
- d) Bod cyswllt gwirioneddol â PCYDDS, lle mae disgwyliad penodol yn **nisgrifydd rôl** yr awdur i gynnal neu alluogi ymchwil. Er bod hyn yn cael ei brofi ar lefel y contract cyflogaeth a'r nisgrifydd rôl, golyga hyn fod yr ymchwil wedi'i chynnal yn PCYDDS, a bod PCYDDS wedi darparu'r amgylchedd, cyllid neu gymorth isadeiledd ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, nid yw'r contractau a restrir yn 5.5 yn enghreifftiau o gyswllt gwirioneddol.

5.5. Cyswllt a eithrir

Ni fydd allbynnau a gynhyrchir yn yr amgylchiadau canlynol yn gymwys:

- a) Allbynnau a awdurwyd gan staff mewn perthynas gyflogaeth gymwys a ddigwyddodd ar ôl yr adeg pan gafodd allbwn ei wneud ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf (oherwydd nid PCYDDS wnaeth alluogi'r ymchwil).
- b) Allbynnau a awdurwyd gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (gan gynnwys traethodau PhD).
- c) Allbynnau a awdurwyd gan staff gwadd neu er anrhydedd (gweler eithriadau 5.14)
- d) Allbynnau a awdurwyd gan staff ar gontractau addysgu yn unig (gweler eithriadau 5.13)
- e) Unigolion a gyflogir ar gontractau academiaidd neu gontractau eraill heb unrhyw ddisgwyliad penodol o ymchwil o fewn rôl y swydd (gweler eithriadau 5.14).

5.6. Diswyddo gorfodol

Yn ogystal:

- a) **Ni** fydd allbwn yn gymwys i'w gyflwyno os oedd yr awdur yn destun diswyddo gorfodol a bod y cyswllt gwirioneddol wedi digwydd **cyn** i'r allbwn gael ei wneud ar gael i'r cyhoedd (e.e. wedi ymddangos yn y parth cyhoeddus ar ôl y diswyddo). Ni fydd hyn yn berthnasol pan fo'r diswyddo o ganlyniad i gwblhau contract cyflogaeth cyfnod penodol (gweler 5.12).

Proses ar gyfer dewis allbynnau ymchwil

5.7. Casglu data llyfryddol ar gyfer allbynnau ymchwil.

Bydd yn ofynnol i'r holl staff gyflwyno cofnod cyflawn a chyfredol o'u hallbynnau ymchwil i'r Grŵp Rheoli REF. Bydd y wybodaeth hon yn gofyn am fanylion llyfryddol o allbynnau ymchwil yn y parth cyhoeddus rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2028.

5.8. Cymhwysra allbwn

Bydd y Grŵp Rheoli REF yn cynnal adolygiad cychwynnol o allbynnau ymchwil i benderfynu a yw pob allbwn yn cyrraedd diffiniad REF o ymchwil. Bydd yr adolygiad yn penderfynu:

- a) A yw'r allbwn yn dod o fewn y cyfnod cymhwysra ar gyfer allbwn (ar gael i'r cyhoedd rhwng 01/01/21 a 31/12/2028).
- b) A yw'r allbwn yn bodloni diffiniad y fframwaith asesu o ymchwil.
- c) A yw'r allbwn yn cydymffurfio â mynediad agored (os yw 'o fewn cwrpas'). Os nad yw'n cydymffurfio, gellir ei ystyried i'w gyflwyno o dan reol eithrio (fel y pennir gan Meini Prawf y Panel).

5.9. Cyswllt gwirioneddol

Bydd y Rheolwr REF neu enwebai yn cysylltu â Phartner Busnes AD ac yn penderfynu a oes 'cyswllt gwirioneddol' rhwng yr allbwn a'r Brifysgol. Byddant yn penderfynu:

- a) A oedd perthynas gyflogaeth gymwys gydag awdur (neu unigolyn cyfatebol) sydd wedi gwneud cyfraniad ymchwil sylweddol i'r allbwn.
- b) A oedd y berthynas gyflogaeth yn bodoli ar yr adeg y daeth yr allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, neu yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr ymchwil a arweiniodd at yr allbwn. Er eglurder, nodir y gellir gwneud allbwn ar gael i'r cyhoedd yn gyntaf **ar unrhyw adeg yn ystod y berthynas gyflogaeth gymwys** (e.e. ar ddiwrnod 1), neu yn achos aelodau o staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Brifysgol (ac eithrio drwy ddiswyddo gorfodol), cyn i'r allbwn a gyflwynir gael ei wneud ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, pan gynhaliwyd yr ymchwil a arweiniodd at yr allbwn (gweler 5.10). Ar gyfer staff a benodwyd yn ystod 2028, gall yr isafswm llawn o 12 mis o gyflogaeth dan gontract ymestyn y tu hwnt i ddiwedd cyfnod REF (31 Rhagfyr 2028).
- c) Sail y berthynas gyflogaeth. Fel arfer dylai hyn fod ar gontract sydd o leiaf 0.2 CALI/FTE am o leiaf 12 mis gyda disgwyliad penodol o weithgarwch ymchwil yn y disgrifydd rôl. Gellir dangos cyflogaeth barhaus trwy ddilyniant o gontractau olynol (fel y'i diffinnir gan Adran 210 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (ERA 1996)).
- d) Rhaid i'r disgrifydd rôl gynnwys disgwyliad penodol o weithgarwch ymchwil (yn unol â diffiniad REF o ymchwil) o fewn y rôl. Nid yw 'gweithgarwch ymchwil' wedi'i gyfyngu gan broffesiwn a gall perthynas gyflogaeth gymwys fod gydag unrhyw aelod o staff sy'n ymgymryd ag ymchwil, yn galluogi neu'n cefnogi ymchwil.

5.10. Cyfnodau Terfyn Amser

Bydd y Rheolwr REF yn ystyried y cyfnod terfyn amser ar gyfer allbynnau lle mae'n rhaid i berthynas gyflogaeth gymwys fod wedi digwydd *naill ai*:

- a) Ar yr adeg y gwnaed yr allbwn a gyflwynir ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf (e.e. ar unrhyw adeg **yn ystod** y berthynas gyflogaeth gymwys), *neu*,
- b) **Cyn** i'r allbwn a gyflwynir gael ei wneud ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, pan gynhaliwyd yr ymchwil a arweiniodd at yr allbwn. Mae hyn yn ymwneud ag aelodau o staff sydd wedi gadael y Brifysgol (ac eithrio trwy ddiswyddo gorfodol), ac y mae eu hallbynnau wedi'u cyhoeddi wedyn. Mae Prif Baneli wedi diffinio'r cyfnod amser cyfyngedig cyn y **dyddiad y gwneir allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf** (pan gwneir yr ymchwil sy'n arwain at yr allbwn) fel dwy flynedd ar gyfer y mwyafrif o allbynnau a phum mlynedd

ar gyfer allbynnau ffurf hir a phroses estynedig. Nid oes gofyniad ychwanegol i ddangos bod PCYDDS wedi galluogi'r ymchwil honno.

5.11. Eithriadau ffurf hir a phrosesau estynedig (cludadwyedd)

Mae'r cyrff cyllido o'r farn ei bod yn briodol cael eithriad yn REF 2029 i'r gofyniad i berthynas gyflogaeth gymwys fod wedi digwydd naill ai **yn ystod** neu **cyn** yr adeg y gwneir allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Bydd yr eithriad hwn yn berthnasol i allbynnau ffurf hir a / neu brosesau estynedig yn unig, a bydd yn caniatáu cyflwyno'r mathau hyn o allbwn yn REF 2029 pan fydd perthynas gyflogaeth gymwys yn digwydd **ar ôl** y pwynt y mae'r allbwn ar gael yn gyhoeddus am y tro cyntaf, am gyfnod cyfyngedig o amser. Mewn achosion o'r fath, bydd y rheolwr REF yn:

- a) Nodi allbynnau ffurf hir a/neu broses estynedig a gyhoeddwyd **cyn** i gontract cymwys ddechrau gyda PCYDDS (ond yn ystod y cyfnod REF o Ionawr 2021 i fis Rhagfyr 2028).
- b) Cadarnhau gyda Phartner Busnes Adnoddau Dynol bod perthynas gyflogaeth gymwys yr aelod o staff â PCYDDS wedi dechrau o fewn 5 mlynedd i'r allbwn ffurf hir a/neu broses estynedig gael ei wneud ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Nid oes angen i'r ymchwilydd fod wedi cael perthynas gyflogaeth gymwys gyda sefydliad arall ar yr adeg y gwnaed yr allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf.
- c) Paratoi cais am eithriad. Gellir cyflwyno allbynnau sy'n bodloni'r paramedrau hyn o dan gais eithriad, a fydd yn gofyn am gyfiawnhad o 100 o eiriau o'r dynodiad yn allbwn ffurf hir / proses estynedig.
- d) Diffinnir allbynnau ffurf hir fel allbynnau sydd ar raddfa neu gwmpas estynedig. Mae allbynnau proses estynedig yn benllanw ymdrech ymchwil sylweddol, annibynnol sydd, oherwydd natur y dull neu'r fethodoleg, yn cynnwys gweithgarwch dwys, a gynhaliwyd dros gyfnod o amser, fel arfer o bum mlynedd neu fwy.

5.12. Dewis allbynnau lle mae'r cyswllt gwirioneddol trwy gyn-staff:

O dan ddull datgysylltu REF 2029, nid yw'n ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno staff fel rhan o'i chyflwyniad REF. Yn hytrach, mae cymhwystra allbynnau'n cael ei benderfynu gan fodolaeth cyswllt gwirioneddol rhwng yr allbwn a'r Brifysgol, naill ai ar yr adeg y gwnaed yr allbwn ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf neu yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd yr ymchwil sylfaenol. Mewn achosion lle mae'r cyswllt gwirioneddol â chyn-aelod o staff, bydd y Rheolwr REF yn pennu cymhwysedd allbwn drwy gyfeirio at natur ymadawiad yr aelod o staff ac amseriad yr allbwn mewn perthynas â'r berthynas gyflogaeth gymwys:

- a) **Diswyddo gorfodol.** Ni fydd allbynnau lle digwyddodd y cyswllt gwirioneddol **cyn** i'r allbwn a gyflwynir gael ei wneud ar gael i'r cyhoedd, yn gymwys i'w cyflwyno pan oedd yr awdur yn destun diswyddo gorfodol (e.e. os yw'r allbwn yn cael ei gyhoeddi ar ôl terfynu cyflogaeth drwy'r modd hwnnw). Bydd allbynnau a wnaed ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg **yn ystod** y berthynas gyflogaeth gymwys yn gymwys i'w cyflwyno, mewn achosion lle cafodd yr awdur ei ddiswyddo'n orfodol ar ôl hynny.
- b) **Diswyddo neu doriad gwirfoddol.** Bydd allbynnau a oedd ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg yn ystod y berthynas gyflogaeth gymwys, yn gymwys i'w cyflwyno. Bydd allbynnau a alluogwyd gan y Brifysgol drwy gyswllt gwirioneddol yn gymwys i'w cyflwyno ar ôl diswyddiad neu doriad gwirfoddol, os bodlonir y terfynau amser a nodir yn 5.10.
- c) **Ymddeoliad.** Bydd allbynnau a wnaed ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg yn ystod y berthynas gyflogaeth gymwys, yn gymwys i'w cyflwyno. Bydd allbynnau a alluogwyd gan y Brifysgol drwy gyswllt gwirioneddol yn gymwys i'w cyflwyno yn dilyn ymddeoliad, os bodlonir y terfynau amser a nodir yn 5.10.
- d) **Diwedd cytundebau cyfnod penodol.** Bydd allbynnau a wnaed ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg yn ystod y berthynas gyflogaeth gymwys, yn gymwys i'w cyflwyno. Bydd

allbynnau a alluogwyd gan y Brifysgol drwy gyswllt gwirioneddol yn gymwys i'w cyflwyno ar ôl i gytundebau tymor penodol ddod i ben, os bodlonir y terfynau amser a nodir yn 5.10. Mae hyn yn cynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol sy'n arwain at ddiswyddiad ar ôl iddynt ddod i ben.

- e) **Ymddiswyddiad.** Bydd allbynnau a wnaed ar gael i'r cyhoedd ar unrhyw adeg yn ystod y berthynas gyflogaeth gymwys, yn gymwys i'w cyflwyno. Bydd allbynnau a alluogwyd gan y Brifysgol drwy gyswllt gwirioneddol yn gymwys i'w cyflwyno yn dilyn ymddiswyddiad ac ar ddiwedd y gyflogaeth, os bodlonir y terfynau amser a nodir yn 5.10.

5.13. Allbynnau a awdurwyd yn ystod contract a eithrir

Gall allbynnau a awdurwyd gan unigolion tra ar gontract a eithrir fod yn gymwys i'w cyflwyno os yw'r unigolyn wedi symud wedyn i gontract Addysgu ac Ymchwil neu Ymchwil yn unig yn ystod y cyfnod REF, yn amodol ar yr amodau canlynol, a gaiff eu cadarnhau gan y Rheolwr REF mewn Cyswllt â Phartner Busnes AD:

- a) Roedd y ddau gontract gyda PCYDDS ac maent yn bodloni'r diffiniad o gyflogaeth barhaus (fel y'i diffinnir gan Adran 210 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (ERA 1996))
- b) Mae'r holl feini prawf cymhwysra eraill ar gyfer perthynas gyflogaeth gymwys yn cael eu bodloni o fewn y cyfnod REF (1 Ionawr 2021 i 31 Rhagfyr 2028)
- c) Mewn achosion o'r fath, bydd y Rheolwr REF a'r Partner Busnes AD yn paratoi datganiad esboniadol sy'n nodi manylion y gyflogaeth a'r disgrifydd rôl, statws SRR a/neu RI, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r achos. Bydd y Grŵp Rheoli REF yn adolygu'r cymhwysra o dan reolau REF 2029. Caiff y dull hwn ei gymhwyso'n gyson a mynegir y canlyniad i'r aelod o staff dan sylw. Yr unig sail dros beidio â derbyn cymhwysra allbwn fydd oherwydd diffyg cydymffurfio â rheolau REF 2029.
- d) Ar ôl i gymhwysra'r allbwn gael ei gadarnhau, caiff ei gynnwys yn y gronfa allbynnau, a gweithredir camau 5.15 – 5.19, i benderfynu a gaiff ei gynnwys yng nghyflwyniad PCYDDS.

5.14. Contractau eithriadol eraill

Mewn achosion eithriadol, sydd wedi'u cyfiawnhau'n glir a'u hawdurdodi ymlaen llaw, gellir cyflwyno allbynnau a awdurwyd gan staff unigol ar gontractau addysgu yn unig, contractau staff emeritws er anrhydedd, neu gontractau eraill heblaw ymchwil. Mae hyn yn wir dim ond pan fo PCYDDS wedi darparu amser a chyllid dynodedig i gefnogi'r gweithgarwch ymchwil penodol hwnnw. Rhaid i achosion o'r fath gael eu hawdurdodi gan y Cyfarwyddwr REF (h.y. wedi'i leoli yn Research England) er mwyn eu cyflwyno. Mewn achosion o'r fath:

- a) Bydd y Rheolwr REF a'r Partner Busnes AD yn cysylltu â'r rhai dan sylw (gan gynnwys y Deon perthnasol, y Cyfarwyddwr Academiaidd, yr Arweinydd Ymchwil a Gwasanaethau Proffesiynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) i baratoi datganiad esboniadol sy'n nodi manylion yr amser a'r adnoddau a ddarparwyd i'r awdur er mwyn i'r ymchwil gael ei gynnal a'i baratoi i'w gyhoeddi. Bydd hyn ond yn berthnasol i achosion lle mae'r allbwn gan yr unigolyn dan sylw yn waith un awdur.
- b) Bydd y Grŵp Rheoli REF yn adolygu'r cymhwysra o dan reolau REF 2029.
- c) Bydd y Rheolwr REF yn ceisio cymeradwyaeth am gymhwysra i gyflwyno gan y Cyfarwyddwr REF.
- d) Caiff y dull hwn ei gymhwyso'n gyson. Yr unig sail dros beidio â derbyn cymhwysra allbwn fydd oherwydd diffyg cydymffurfio â rheolau REF 2029, a / neu oherwydd bod y Cyfarwyddwr REF yn gwrthod cymhwysra yn nes ymlaen.
- e) Ar ôl i gymhwysra'r allbwn gael ei gadarnhau, caiff ei gynnwys yn y gronfa allbynnau, a gweithredir camau 5.15 – 5.19, i benderfynu a gaiff ei gynnwys yng nghyflwyniad PCYDDS.

5.15. Cronfa Allbynnau

Ar ôl cwblhau'r broses a'r gwiriadau a nodir yn 5.7 – 5.14, bydd cronfa allbynnau terfynol yn cael ei gynhyrchu. Bydd y gronfa allbynnau yn:

- a) Cadarnhau bod cyswllt gwirioneddol wedi'i sefydlu â'r allbwn.
- b) Cadarnhau statws mynediad agored.
- c) Cadarnhau'r math o allbwn.
- d) Cadarnhau statws cyhoeddi, dyddiad a data / metadata llyfryddol perthnasol.
- e) Cadarnhau a oes unrhyw gyfyngiadau yn berthnasol (e.e. cyfrinachedd).
- f) Manylu ar ddynodiad thematig yr ymchwil yn unol â Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS.

5.16. Neilltuo allbynnau i Unedau Asesu.

Yn REF 2029, bydd dyrannu allbynnau i unedau asesu (UoAs) yn dilyn dull diwygiedig sy'n adlewyrchu datgysylltu contractau ac allbynnau. Golyga hyn nad yw allbynnau wedi'u cysylltu ag ymchwilwyr penodol a gall PCYDDS eu cyflwyno os gellir dangos tystiolaeth o gyswllt gwirioneddol. Pan fo contract awdur wedi bod yn gysylltiedig ag uned asesu yng nghofnod staff HESA (e.e. ar gyfer y rhai sydd ag SRR neu IR), nid oes gofyniad i'r allbwn gael ei gyflwyno i'r un uned asesu. Felly, mae PCYDDS yn gyfrifol am fapio allbynnau i'r unedau asesu i'w cyflwyno.

Bydd y canlynol yn berthnasol:

- a) **Egwyddorion.** Bydd dyrannu allbynnau ymchwil i Unedau Asesu (UoAs) yn cael ei gynnal mewn modd sy'n deg, yn dryloyw, yn gyson ac yn anwahaniaethol, yn unol â chanllawiau REF 2029 ac ymrwymïadau PCYDDS i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd penderfyniadau'n seiliedig ar gynnwys deallusol, tuedd fethodolegol, a chyfraniad disgyblaethol neu ryngddisgyblaethol sylfaenol pob allbwn, a'r graddau y mae o fewn ffiniau disgrifydd yr uned asesu, yn hytrach na chartref contractiol, ffynhonnell ariannu, neu amgylchiadau personol yr awdur(on). Ni ddylai unrhyw aelod o staff gael ei effeithio'n andwyol gan y broses o ddyrannu allbwn.
- b) **Allbynnau Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain.** Ni fydd allbynnau Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cael eu trin yn llai ffafriol nag allbynnau Saesneg. Bydd allbynnau ymchwil Cymraeg yn cael eu hasesu yn Gymraeg yn erbyn yr un meini prawf REF, sef gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd, ag allbynnau Saesneg, heb addasu safonau na disgwyliadau yn seiliedig ar yr iaith gyhoeddi. Ni fydd iaith allbwn yn cael ei defnyddio fel procsi am ansawdd, cyrhaeddiad, cynulleidfa neu effaith, nac fel ffactor wrth benderfynu ar ei addasrwydd i'w gyflwyno. Bydd penderfyniadau ynghylch cynnwys a dyrannu allbynnau Cymraeg a BSL a'u sgôr fewnol yn seiliedig yn unig ar eu rhinweddau academiaidd a'u cyfraniad i'r Uned Asesu.
- c) **Cymhwysra a Chyfrifoldeb.** Bydd yr holl allbynnau ymchwil yn y gronfa allbynnau'n cael eu hystyried i'w cyflwyno. Mae'r cyfrifoldeb am ddyrannu allbynnau i unedau asesu yn gorwedd gyda'r Brifysgol ac yn cael ei weithredu trwy'r Grŵp Rheoli REF. Gall y grŵp Rheoli REF ymgynghori â staff ymchwil fel rhan o'r broses hon, ac mewn achosion o'r fath rhoddir sylw dyledus i'w barn a'u dewisiadau disgyblaethol. Bydd y penderfyniadau terfynol ar ddyrannu allbynnau yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Grŵp Rheoli REF i sicrhau cydlynïad ac aliniad â strategaeth gyflwyno'r Brifysgol.
- d) **Meini prawf dyrannu.** Caiff allbynnau eu dyrannu i'r uned asesu sy'n adlewyrchu orau eu prif gyfraniad academiaidd ac ymchwil. Wrth wneud penderfyniadau dyrannu, gellir ystyried y meini prawf canlynol:
 - Y cwestiynau ymchwil, fframweithiau damcaniaethol, a methodolegau a ddefnyddir.
 - Y maes/meysydd disgyblaethol neu ryngddisgyblaethol y mae'r allbwn yn gwneud cyfraniad sylweddol iddynt.

- Y gynulleidfa ysgolheigaidd neu broffesiynol arfaethedig.
- Y farchnad gyhoeddi a'i safle o fewn cymunedau ymchwil perthnasol.
- Perthynas yr allbwn ag amgylchedd a strategaeth ymchwil yr uned asesu arfaethedig a Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS.

e) Allbynnau rhyngddisgyblaethol a thraws unedau asesu. Mae PCYDDS yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth ymchwil rhyngddisgyblaethol. Bydd allbynnau sy'n rhychwantu sawl disgyblaeth neu faes ymchwil yn cael eu dyrannu i'r unedau asesu lle bernir eu bod yn gwneud eu cyfraniad mwyaf arwyddocaol a chydlynol, gan ystyried cryfder yr aliniad ag amgylchedd ymchwil yr uned asesu sy'n gwneud y cyflwyniad.

f) Ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cynhelir y broses ddyrannu mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac sy'n lliniaru'r risg o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol. Yn benodol:

- Ni fydd allbynnau'n cael eu dyrannu mewn ffyrdd sy'n effeithio'n andwyol ar unigolion oherwydd nodweddion gwarchodedig, toriadau gyrfa, neu lwybr gyrfa annodweddiadol;
- Bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n derbyn arweiniad a hyfforddiant priodol ar ystyriaethau cydraddoldeb sy'n berthnasol i brosesau REF;
- Bydd penderfyniadau dyrannu'n cael eu monitro ar lefel sefydliadol i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ragfarn neu anghyfranoldeb anfwriadol fel y nodir yn Rhan 6 ac isod.

g) Tryloywder. Bydd y Grŵp Rheoli REF yn cadw cofnodion priodol o benderfyniadau dyrannu i ddangos cysondeb, tryloywder a chydymffurfiaeth â gofynion REF.

5.17. Dewis allbynnau

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyflwyno ymchwil o'r ansawdd uchaf ar draws pob disgyblaeth y mae'n weithredol ynddi. Er mwyn cefnogi hyn, bydd yn gweithredu proses strwythuredig a thryloyw ar gyfer dewis allbynnau ac adolygu mewnol, dan arweiniad y Grŵp Rheoli REF, i alluogi dyfarniadau cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth cyn eu cyflwyno. Caiff allbynnau eu hadolygu yn erbyn meini prawf asesu REF, wedi'u llywio gan arbenigedd disgyblaethol priodol a meincnodi allanol, lle bo hynny ar gael, tra'n sicrhau bod cyflwyniadau yn parhau i fod yn gynrychioliadol o'r ymchwil a wneir ym mhob Uned Asesu ac yn cyd-fynd yn gydlynol â Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, fel y nodir yn adran 5.16. Bydd y Grŵp Rheoli REF yn goruchwyllo cymhwyso'r broses hon yn gyson ar draws unedau asesu, gan ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwyddi draw, a bydd yn defnyddio canlyniadau adolygiadau i lywio dewis a dyrannu allbynnau a rheoli risg, gan roi adborth i Arweinwyr unedau asesu i gefnogi penderfyniadau cyflwyno terfynol.

a) Dynodi Allbynnau a Sgrinio Cychwynnol. Mae gan y Grŵp Rheoli REF arweinydd dynodedig ar gyfer pob uned asesu. Bydd arweinwyr yr unedau asesu'n nodi cronfa o allbynnau ymchwil cymwys, ac yn cynnal sgrinio cychwynnol i gadarnhau bod y gronfa'n adlewyrchu ehangder y gweithgarwch ymchwil o fewn yr uned, gan gynnwys amrywiaeth ddisgyblaethol, mathau o allbynnau, ac ymchwil gydweithredol. Ar y cam hwn, gall staff ddarparu gwybodaeth gyd-destunol i gefnogi dealltwriaeth o gyfraniad yr allbwn, gan gynnwys dimensiynau rhyngddisgyblaethol neu gynulleidfa arfaethedig. Bydd hyn yn llywio'r Datganiad Cynrychiolaeth (manylir yn 5.19).

b) Allbynnau Cymraeg. Bydd staff yn gallu cyflwyno allbynnau a'r holl wybodaeth gyd-destunol ategol yn gyfan gwbl yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis unigol. Caiff canllawiau, templedi a chyfathrebiadau sy'n ymwneud â chyflwyno allbynnau eu darparu'n ddwyieithog, gan sicrhau nad yw staff sy'n siarad Cymraeg dan anfantais adeg derbyn i'r gronfa allbynnau. Bydd allbynnau cyfrwng Cymraeg yn cael eu nodi'n glir o fewn y gronfa allbynnau er mwyn galluogi neilltuo adolygydd priodol a sicrhau ansawdd.

- c) **Allbynnau Iaith Arwyddion Prydain.** Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod allbynnau a gynhyrchir yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cael eu cefnogi a'u hasesu'n deg o fewn prosesau REF 2029. Bydd cefnogaeth briodol ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau ystyriaeth deg, a chânt eu monitro'n weithredol.
- d) **Adolygu gan Gymheiriaid Mewnol.** Bydd allbynnau yn destun adolygiad cymheiriaid mewnol gan adolygwyr sydd ag arbenigedd disgyblaethol priodol. Caiff adolygwyr eu briffio ar sut i gymhwyso meini prawf asesu REF yn gyson, gan ganolbwyntio ar wreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd, ac i osgoi rhagfarn. Lle bo hynny'n briodol, gellir denu adolygwyr o bob rhan o PCYDDS i sicrhau eu bod yn annibynnol ar yr uned sy'n cyflwyno. Bydd adolygiad gan gymheiriaid mewnol yn cynhyrchu asesiadau ansawdd dangosol ac adborth ansoddol, a gaiff eu cofnodi gan ddefnyddio templed adolygu safonol i sicrhau cysondeb ar draws unedau asesu. Bydd allbynnau Cymraeg yn cael eu hadolygu gan adolygwyr sydd â chymhwysedd priodol yn y Gymraeg ac arbenigedd disgyblaethol, er mwyn sicrhau asesiad teg a gwybodus. Os nad oes adolygydd Cymraeg â chymwysterau cymwys ar gael o fewn y Brifysgol, penodir adolygwyr cyfrwng Cymraeg allanol i sicrhau craffu cytbwys. Gwneir addasiadau rhesymol i sicrhau bod allbynnau BSL yn cael eu hadolygu'n briodol i sicrhau asesiad teg a gwybodus.
- e) **Adolygu a Meincnodi Allanol.** Er mwyn cefnogi cadernid dyfarniadau ansawdd a'u graddnodi, gellir adolygu is-set o allbynnau (os oes ansicrwydd) gan arbenigwyr allanol, a ddewiswyd am eu statws disgyblaethol a'u profiad o REF. Os gofynnir iddynt wneud hyn, bydd adolygwyr allanol yn cael canllawiau clir ar feini prawf REF, cyfrinachedd ac ystyriaethau cydraddoldeb. Defnyddir adolygiad allanol at ddibenion meincnodi yn unig, i lywio ond nid pennu, dyfarniadau sefydliadol. Pan fyddant yn gweithredu fel hyn, bydd y cydbwysedd rhwng adolygiad mewnol ac adolygiad allanol yn cael ei bennu gan y Grŵp Rheoli REF i sicrhau cymesuredd a chysondeb ar draws unedau asesu. Pan fo allbynnau Cymraeg yn cael eu meincnodi'n allanol, dewisir adolygwyr sy'n arbenigwyr disgyblaethol ac sy'n gymwys yn y Gymraeg, neu gwneir trefniadau cyfatebol i osgoi anfantais ieithyddol. Ni fydd adolygiad allanol yn cael ei hepgor ar gyfer allbynnau Cymraeg oherwydd ystyriaethau iaith yn unig. Pan fo allbynnau BSL yn cael eu meincnodi'n allanol, dewisir adolygwyr sy'n gymwys yn BSL, neu gwneir trefniadau cyfatebol i osgoi anfantais ieithyddol. Ni fydd adolygiad allanol yn cael ei hepgor ar gyfer allbynnau BSL oherwydd ystyriaethau iaith yn unig.
- f) **Trafodaeth ac Argymhelliad ar Lefel Unedau Asesu.** Bydd Arweinwyr Unedau Asesu yn cynnull cyfarfodydd, wedi'u llywio gan ganlyniadau adolygiadau mewnol ac allanol, i ystyried proffil datblygol allbynnau ar gyfer eu huned. Bydd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar ansawdd academiaidd, cydlyniant y cyflwyniad, cyfraniadau rhyngddisgyblaethol, a'r aliniad ag unedau asesu a strategaethau ymchwil sefydliadol. Bydd Arweinwyr unedau asesu'n gwneud argymhellion ar ddewis a dyrannu allbynnau i'r Grŵp Rheoli REF, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u dogfennu. Bydd allbynnau Cymraeg a BSL yn cael eu dyrannu i Unedau Asesu yn seiliedig ar addasrwydd deallusol a disgyblaethol, ac ni chant eu hailgyfeirio, eu clystyru na'u heithrio am resymau ieithyddol. Bydd allbynnau Cymraeg neu BSL yn cael eu hystyried yn gyfartal ochr yn ochr ag allbynnau Saesneg wrth asesu cydlyniant, cydbwysedd a chynrychioldeb pob uned astudio a gyflwynir.
- g) **Goruchwyliaeth Sefydliadol a Gwneud Penderfyniadau Terfynol.** Bydd y Grŵp Rheoli REF yn goruchwyllo'r gwaith o gydgrynhoi adolygiadau ac argymhellion o ran allbynnau ar draws yr holl unedau asesu. Bydd yn sicrhau bod:
- Prosesau adolygu wedi'u cymhwyso'n gyson.
 - Penderfyniadau yn cyd-fynd â Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol.
 - Ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hystyried yn briodol.
 - Y dewisiadau allbwn terfynol yn adlewyrchu cynnwys ymchwil cyfrwng Cymraeg yn briodol, lle mae ymchwil o'r fath yn rhan o weithgarwch yr Uned.

- Y cyflwyniad cyffredinol yn gytbwys, yn gynrychioliadol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

h) Cymeradwyo. Bydd penderfyniadau terfynol ar ddewis a dyrannu allbynnau yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol trwy strwythurau llywodraethu REF y Brifysgol.

5.18. Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod cyflwyniadau yn gynrychioliadol o'r ymchwil a wnaed o fewn yr uned gyflwyno yn ystod y cyfnod REF

Er mwyn lliniaru pryderon y gallai datgysylltu'n llawn arwain at dangynrychiolaeth meysydd ymchwil a grwpiau ymchwil, mae'n ofynnol i bob cyflwyniad uned gynrychioli ystod pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd yn ystod cylch REF 2029, fel y disgrifir yn yr amlinelliad o weithgarwch ymchwil o fewn yr uned gyflwyno, a thrafod hyn yn y **datganiad cynrychiolaeth** a gyflwynir i REF. Yn benodol, bydd cyflwyniadau'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y gweithgarwch ymchwil ym mhob uned, gan gynnwys themâu ymchwil, mathau o allbwn, cydweithrediadau, partneriaethau a chyfraniadau deallusol, a byddant yn gyson â strwythurau ymchwil, blaenoriaethau ac amcanion strategol yr uned. Ar gyfer pob uned asesu, bydd y Grŵp Rheoli REF yn paratoi dadansoddiad a datganiad neu gynrychiolaeth sy'n amlinellu:

- a) Trosolwg o weithgarwch ymchwil a fframio academiaidd yr uned gyflwyno, gan gynnwys unrhyw strwythurau pwnc, grwpiau ymchwil a/neu feysydd ymdrech academiaidd arbenigol ar wahân.
- b) Sut mae allbynnau'r uned gyflwyno a'r rhestr wrth gefn gysylltiedig yn cyd-fynd â'r cyd-destun, strategaethau ymchwil, strwythurau a newidiadau i'r sefydliad academiaidd fel y nodwyd.
- c) I ba raddau y mae'r allbynnau a gyflwynwyd a'r rhestr wrth gefn gysylltiedig gyda'i gilydd yn cynrychioli ystod ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil a'r mathau o allbwn a gynhyrchir mewn uned gyflwyno dros gyfnod asesu REF, gan gynnwys cyfraniadau at raglenni neu rwydweithiau ymchwil ar raddfa fawr, mentrau cenedlaethol/byd-eang neu feysydd ymdrech academiaidd arbenigol annibynnol.
- d) Myfyrdod ar y graddau y mae mathau gwahanol ac amrywiol o ymchwil wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad (gweler 5.17).
- e) Y rhesymeg ar gyfer unrhyw achosion lle cyflwynir mwy na'r uchafswm o 5 allbwn sy'n gysylltiedig ag un cyswllt gwirioneddol.
- f) Myfyrdod ar y graddau y mae gweithgarwch ymchwil cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynrychioli, pan fo'n berthnasol i gyd-destun disgyblaethol yr Uned.
- g) Y rhesymeg ar gyfer unrhyw faes gweithgarwch ymchwil nad yw'n cael ei gynrychioli.
- h) Myfyrdod ar yr amgylchiadau penodol, cryfderau ac unrhyw newidiadau yng ngraddfa meysydd ymchwil.
- i) Esboniad lle mae crynodiad anghymesur o isel o allbynnau yn ymwneud â'r cyd-destun a'r strategaeth a roddwyd.
- j) Twf a graddau aeddfedrwydd meysydd ymchwil, gan gynnwys cyflwyno meysydd newydd neu ddatblygol nad ydynt eto wedi cynhyrchu allbynnau ymchwil.
- k) Esboniad ynghylch ble mae ailstrwythuro a newidiadau o fewn y Brifysgol a'r unedau asesu wedi arwain at ddadfuddsoddi ac wedi effeithio ar allu'r Uned gyflwyno (neu rannau o'r Uned) i gynhyrchu allbynnau yn ystod y cyfnod REF.
- l) Pan fo gweithgarwch ymchwil Cymraeg yn bodoli ond nid yw'n cael ei adlewyrchu yn y cyflwyniad terfynol, cofnodir y rhesymeg am hynny, ac ni fydd iaith yn ffactor diffiniol yn y penderfyniad hwnnw.

5.19. Gweithdrefnau ar gyfer cefnogi amrywiaeth allbynnau

Mae Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS 2030 yn blaenoriaethu ymchwil wedi'i gyd-gynllunio, a arweinir gan genhadaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn cyd-destunau byd go iawn i greu effaith economaidd a chymdeithasol. Mae'r dull hwn yn cyfuno allbynnau ymchwil cymhwysol â'n treftadaeth ddisgyblaethol nodedig, gan sicrhau deilliannau sy'n academiaidd drylwyr, yn berthnasol i ddiwydiant, ac yn fuddiol i gymunedau. O fewn y cyd-destun strategol

hwn, rhoddir sylw dyledus i adnabod a chyflwyno ystod eang o allbynnau ymchwil, a fynegir yn y ffordd fwyaf priodol ar gyfer yr ymchwil ei hun a'i chynulleidfaoedd a'i phartneriaid. Gall allbynnau o'r fath gynnwys fformatau arloesol, fformatau adrodd hygyrch, a dulliau mynegi a allai wyro oddi wrth gonfensiynau hanesyddol o fewn meysydd a chyd-destunau penodol. Bydd enghreifftiau o fathau o allbynnau amrywiol yn cynnwys y canlynol, a llawer iawn mwy: erthyglau cyfnodolion, papurau cynadleddau, monograffau a phenodau llyfrau, a ystyrir yn ein proses dewis allbynnau. Fel y bo'n briodol i bob uned asesu, byddant yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain):

- a) Deunydd anhestunol (e.e. arteffactau, cyfryngau sain, gweledol, aml-foddol, ffilmiau, fideos a chyfryngau darlledu)
- b) Allbynnau creadigol, perfformiadol a arweinir gan arfer (e.e. arddangosfeydd, arteffactau, gosodweithiau, gweithiau wedi'u curadu, cerddoriaeth, theatr, dawns, cyfansoddiadau)
- c) Ysgrifennu creadigol (e.e. nofelau, barddoniaeth, sgriptiau)
- d) Cyfieithiadau ac argraffiadau beirniadol
- e) Dyluniadau (peirianegol, pensaernïol, graffig, ac ati)
- f) Meddalwedd, cod ac allbynnau technegol (e.e. apiau ac offer)
- g) Setiau data a chronfeydd data
- h) Adweithyddion
- i) Allbynnau aml-gydran
- j) Adolygiadau a synthesis ymchwil
- k) Crynodebau a dadansoddiadau polisi
- l) Gwahanol fathau o adroddiadau

5.20. Polisiâu a gweithdrefnau ac arfer asesu ymchwil cyfrifol

Mae'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod Ymarfer yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu ymrwymiad PCYDDS i asesiad ymchwil teg, tryloyw a chynhwysol ar gyfer REF 2029. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag egwyddorion Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA) a Maniffesto Leiden lle mae ansawdd ymchwil yn cael ei asesu'n bennaf trwy adolygiad gan gymheiriaid arbenigol, gan gydnabod amrywiaeth cyfraniadau ymchwil, disgyblaethau, methodolegau, mathau o allbwn a llwybrau gyrfu. Defnyddir dangosyddion meintiol dim ond lle bo hynny'n briodol, yn dryloyw ac mewn cyd-destun, a byth yn lle ansawdd ymchwilwyr neu allbynnau unigol. Ni ddefnyddir metrigau sy'n seiliedig ar gyfnodolion wrth wneud penderfyniadau REF. Mae polisiâu a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â REF yn cael eu dogfennu a'u cyfathrebu'n glir, gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori trwyddi draw. Mae'r holl staff sy'n ymwneud â phrosesau REF yn derbyn hyfforddiant priodol ar y materion hyn, ar duedd ddarwybod a gofynion REF.

5.21. Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant:

Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer dynodi staff a phwyllgorau dynodedig ar gyfer gwneud penderfyniadau REF fel y'u manylir yn Adranau 2.11 – 2.17. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am ddisgrifiadau rôl unigolion a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Ymchwil a'r Grŵp Rheoli REF. Darperir manylion yr hyfforddiant a roddir i unigolion a phwyllgorau sy'n ymwneud â dynodi staff, yr amserlen ar gyfer cyflwyno, a'r cynnwys, yn Adran 2.18

5.22. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA):

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Rhan 5 yn gwerthuso prosesau'r Brifysgol ar gyfer nodi, adolygu a dewis allbynnau ymchwil ar gyfer REF 2029. O fewn fframwaith REF wedi'i ddatgysylltu'n llawn, lle mae sylw'n symud o unigolion i gyfraniad cyfunol pob Uned Asesu, mae'r EIA yn archwilio a allai unrhyw gam o'r broses allbynnu, o ffurfio'r gronfa gymwys drwy adolygiad gan gymheiriaid, i'r cymeradwyo sefydliadol terfynol, greu effaith andwyol ar staff â nodweddion gwarchodedig neu ar ymchwilwyr cyfrwng Cymraeg. Mae'n sicrhau bod prosesau'n cynnal

egwyddorion tegwch, tryloywder, cysondeb, cydraddoldeb a thegwch i'r Gymraeg a nodir yng Nghod Ymarfer REF 2029, a bod strategaethau lliniaru wedi'u hymgorffori fel bod barn ynghylch ansawdd yn parhau i fod wedi'i seilio ar feini prawf REF a bod y dewis terfynol yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth yr ymchwil ym mhob Uned sy'n cyflwyno. Bydd unrhyw ostyngiad anghymesur yn nifer yr allbynnau Cymraeg adeg cyfnodau adolygu neu ddewis yn sbarduno ymchwiliad ffurfiol a chamau lliniaru gan y Grŵp Rheoli REF. Bydd canfyddiadau sy'n ymwneud â chydaddoldeb y Gymraeg yn cael eu hadolygu gan Arweinydd Safonau'r Gymraeg a'u hadrodd ochr yn ochr â dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig.

Methodoleg

1. Pwrpas yr Asesiad	Pwrpas yr EIA hwn yw asesu a yw prosesau'r Brifysgol ar gyfer Dewis Allbynnau REF 2029 yn creu unrhyw effaith andwyol ar staff sydd â nodweddion gwarchodedig, neu mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg, a sicrhau bod y fethodoleg dewis allbynnau: a) Yn deg, yn dryloyw ac yn gyson, fel sy'n ofynnol gan REF 2029 a'r Cod Ymarfer. b) Yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) trwy nodi a lliniaru gwahaniaethu posibl, rhwystrau rhag cyfranogi, neu anafanteision strwythurol. c) Yn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar ansawdd a chyfraniad allbynnau yn unig, ac nid amgylchiadau personol, nodweddion gwarchodedig, neu gategoriâu contractiol staff, heblaw'r rhai a osodir gan reolau REF. d) Yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu cyflwyniadau sy'n gynrychioliadol o ehangder llawn y gweithgarwch ymchwil a wneir ar draws Unedau Asesu PCYDDS
2. Sylfaen Dystiolaeth	Tystiolaeth feintiol a) Allbynnau, cofnodion llyfryddiaethol a metadata ar gyfer yr holl allbynnau a gyflwynwyd i'r gronfa allbynnau (2021–2028). b) Data nodweddiadol gwarchodedig o systemau AD, gan gynnwys rhyw, hil / ethnigrwydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd / cred, beichiogrwydd / mamolaeth, priodas / partneriaeth sifil ac ailbennu rhywedd. c) Categoriâu SRR/RI wedi'u gwirio gan HESA a ddefnyddiwyd mewn rhannau cynharach o broses REF, a thystiolaeth ddogfennol arall o 'berthynas gyflogaeth gymwys' a ddiffinnir gan REF ar gyfer awduron allbwn. d) Patrymau demograffig ar lefel uned asesu, gan gynnwys dosbarthiad allbynnau sy'n gysylltiedig â staff o grwpiau a dangynrychiolir. Tystiolaeth ansoddol e) Adroddiadau adolygu gan gymheiriaid mewnol, sylwadau adolygwyr a chofnodion cymedroli. f) Datganiadau lefel uned asesu ar strategaeth ymchwil, pobl, amgylchedd (SPRE) a 'datganiadau cynrychiolaeth' drafft. g) Adborth, pryderon ac apeliadau a godwyd gan staff ynghylch adolygu neu ddyrannu allbwn.

	h) Mewnbwn gan Arweinwyr Ymchwil Athrofeydd, Grŵp Rheoli REF, Arweinydd Cydraddoldeb Adnoddau Dynol, ac Arweinydd Safonau'r Gymraeg. Cyd-destun sefydliadol i) Cod Ymarfer REF 2029 PCYDDS j) Cynllun Cydraddoldeb Strategol PCYDDS (2024–2028). k) Strategaeth Ymchwil ac Arloesi PCYDDS (2025-30) l) Safonau'r Gymraeg a chanllawiau Medr ar gyfer ymdrin ag ymchwil ddwyieithog
3. Dull Asesu	Dadansoddi Cynrychiolaeth: a) A yw allbynnau a gynhyrchir gan staff ar draws yr holl grwpiau gwarchodedig yn cael eu cynrychioli'n gymesur o fewn y gronfa allbynnau. b) A yw grwpiau penodol â nodweddion gwarchodedig yn ymddangos yn absennol o'r gronfa allbynnau neu'r dewis terfynol, a hynny'n anghymesur. c) A yw strwythurau disgyblaethol neu benodol i unedau asesu yn anfantais i ymchwilwyr mewn meysydd â phroffiliau demograffig anwastad (e.e. disgyblaethau sy'n gysylltiedig â rhywedd penodol, lleiafrifoedd a dangynrychiolir mewn STEM). d) Os yw patrymau tangynrychiolaeth yn fwy na'r hyn a ddisgwyld yn rhesymol trwy hap neu gynnwys disgyblaeth, caiff ymchwiliad pellach ei sbarduno. Dadansoddi Effaith Proses. Mae'r cam hwn yn archwilio a allai unrhyw agwedd ar y broses dewis allbynnau roi unrhyw grŵp gwarchodedig o dan anfantais yn anuniongyrchol. Mae meysydd i'w hasesu'n cynnwys: e) Adnabod allbynnau cymwys ar y cychwyn: a oedd gan yr holl staff (gan gynnwys staff rhan-amser, cyfnod penodol ac ymchwil yn unig) gyfle cyfartal i gofrestru allbynnau. f) A yw ymchwil yn y Gymraeg yn cael adolygiad teg, arbenigol gan gymheiriaid ac nad ydynt dan anfantais yn sgil argaeledd adolygwyr neu gamddealltwriaeth fethodolegol.
4. Dehongli a Lliniaru	Mae'r camau lliniarol i'w hystyried pan fo canlyniadau anfwriadol yn cael eu nodi, neu eu rhagweld, yn cynnwys: a) Monitro a yw allbynnau gan grwpiau a dangynrychiolir yn clystyru mewn categorïau ansawdd "ffiniol" yn anghymesur. b) Addasu'r adolygydd a neilltuir neu'r cymedroli lle canfyddir gogwydd cyson. c) Hyfforddiant gorfodol i adolygwyr ar feini prawf REF, tuedd ddiairwybod, a thegwch disgyblaethol. d) Neilltuo adolygwyr yn gytbwys i adlewyrchu amrywiaeth methodolegol a disgyblaethol. Mesurau Lliniaru yn ymwneud â'r Gymraeg e) Sicrhau bod adolygwyr cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer allbynnau Cymraeg.

	f) Darparu canllawiau a ffurflenni adolygu gyda'r ddwy iaith yn gyfochrog. g) Sicrhau bod yr holl staff yn gallu cymryd rhan yn y broses yn gyfan gwbl yn Gymraeg neu Saesneg. h) Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob proses REF. Cynrychioldeb: i) Adolygiad gan y Grŵp Rheoli REF i gadarnhau bod y dewisiadau terfynol yn adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y gweithgarwch ymchwil. j) Cynnwys esboniadau yn y Datganiad Cynrychiolaeth pan nad yw amrywiaeth yn gwbl bresennol, gyda mesurau lliniaru ar gyfer cylchoedd yn y dyfodol. Iaith Arwyddion Prydain k) Bydd y Brifysgol yn monitro a yw allbynnau iaith Arwyddion Prydain yn cael eu cynrychioli'n deg o fewn y gronfa allbynnau a'r cyflwyniad terfynol, ac a oes unrhyw rwystrau'n codi wrth adolygu, asesu neu ddethol.
5. Adroddiadau a Llywodraethiant	Mae'r cyfrifoldeb am weithredu a monitro'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) hwn yn gorwedd gyda'r: • Rheolwr REF: goruchwyliaeth weithredol o'r broses ddewis. • Grŵp Rheoli REF: goruchwyliaeth sefydliadol, cymedroli a chymeradwyo. • Arweinydd Cydraddoldeb AD: monitro data nodweddion gwarchodedig, cynghori ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). • Arweinydd Safonau'r Gymraeg: goruchwyllo prosesau dwyieithog. Caiff canfyddiadau eu hymgorffori mewn: • Adroddiadau blynyddol ar EIA i REF (Rhannau 2–6). • Monitro blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol o fewn yr Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol.
6. Cylch Adolygu Blynyddol	Yn unol â Rhan 6 o'r Cod Ymarfer, cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn gysylltiedig â dewis allbynnau: • Medi–Rhagfyr 2027: EIA yn seiliedig ar y cylch dewis llawn cyntaf, sy'n ymgorffori data cronfeydd allbynnau a chanlyniadau adolygwyr. • Mai 2028: EIA terfynol cyn cyflwyno yn seiliedig ar ganlyniadau'r dewis terfynol. Ar bob cam, bydd yr EIA yn: • Dadansoddi cynrychiolaeth ac effaith y broses. • Nodi risgiau strwythurol neu ddatblygol. • Argymhell mesurau lliniaru ac addasiadau. • Bwydo canfyddiadau yn ôl i ddiweddariadau'r Cod Ymarfer a chynllunio penodol i unedau asesu. • Bydd yr holl newidiadau'n cael eu cofnodi a'u hymgorffori yn yr EIA sefydliadol terfynol a gyflwynir i REF.

Rhan 6. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Diben a Chyd-destun Cyfreithiol

Fel sefydliad sy'n cymryd rhan yn REF2029, mae'n ofynnol i'r Brifysgol gwblhau a chyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) fel elfen graidd o'r Cod Ymarfer. Mae'r EIA yn dangos sut mae'r Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddylunio a chymhwyso'r holl bolisiau, prosesau a gweithgareddau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â REF. Mae'n sicrhau bod prosesau REF sefydliadol yn deg, yn dryloyw, yn gynhwysol, ac nad ydynt yn arwain at anfantais anghyfiawn i unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod, o dan y PSED, ei bod yn rhaid integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb **cyn ac ar adeg gwneud penderfyniadau**, nid yn ôl-weithredol. Felly, mae'r EIA yn rhan annatod o gynllunio, gweithredu ac adolygu'r REF. Mae'n archwilio goblygiadau cydraddoldeb penderfyniadau sefydliadol ac yn nodi lle gall addasiadau, mesurau lliniaru, neu ddulliau amgen leihau neu ddileu anfantais bosibl.

6.2 Egwyddorion Ymagwedd y Brifysgol at Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu ymagwedd at EIA sydd yn:

- **Rhagddyfalus:** Cynhelir EIAs ar y adeg y mae penderfyniadau'n cael eu datblygu, nid ar ôl iddynt gael eu gwneud.
- **Seiliedig ar dystiolaeth:** Defnyddir data meintiol ac ansoddol, gan gynnwys data nodweddion gwarchodedig, ymgynghoriad staff, a gwybodaeth gyd-destunol.
- **Cymesur a thrwyadl:** Caiff asesiadau eu graddio'n briodol yn ôl arwyddocâd pob penderfyniad, gan gydnabod y gall hyd yn oed brosesau technegol (e.e. penderfyniadau SRR) gael goblygiadau ystyrlon o ran cydraddoldeb.
- **Tryloyw:** Caiff canfyddiadau, lliniariadau a chyfiawnhad eu cofnodi a'u cyhoeddi.
- **Parhaus:** Mae EIAs yn cael eu hailystyried pryd bynnag y mae polisiau neu brosesau sy'n gysylltiedig â REF yn esblygu.

6.3 Cwmpas Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Mae'r EIA yn cwmpasu'r **Cod Ymarfer cyfan**, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- Nodi staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil (SRR)
- Pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI)
- Dyrannu contractau cymwys i Unedau Asesu
- Prosesau dewis allbynnau
- Mekanweithiau apelio ac adolygu
- Unrhyw adolygiad dilynol o bolisiau neu weithdrefnau sy'n gysylltiedig â REF

Mae'r EIA yn canolbwyntio ar **brosesau sefydliadol**, yn hytrach nag amgylchiadau unigol, sy'n adlewyrchu datgysylltu allbynnau oddi wrth unigolion yn REF2029.

6.4 Cwestiynau Craidd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ar bob pwynt asesu, bydd y Brifysgol yn gwerthuso effeithiau posibl gan ddefnyddio'r tri lens statudol canlynol sydd wedi'u halinio â REF:

A. Dileu Gwahaniaethu Anghyfreithlon

- A allai'r broses roi staff sydd â nodweddion gwarchodedig dan anfantais anghymesur?
- A oes unrhyw feini prawf yn wahaniaethol yn anuniongyrchol (niwtral o ran dyluniad ond yn anghyfartal o ran effaith)?
- A oes addasiadau rhesymol wedi'u hystyried?
- A oes unrhyw arferion etifeddol yn anfanateisiol o bosibl?

B. Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

- A oes rhwystrau rhag cyfranogi neu gyfrannu wedi'u nodi a'u datrys?
- A oes gan bob grŵp fynediad teg i'r broses?
- A yw penderfyniadau wedi cael eu profi â data wedi'u dadgyfuno?
- A oes cyfleoedd i ddylunio dulliau sy'n cefnogi cynhwysiant yn rhagweithiol?

C. Meithrin Cysylltiadau Da

- A gysylltwyd neu a ymgynghorwyd â grwpiau neu rwydweithiau staff perthnasol?
- A yw'r broses wedi'i chyfathrebu'n glir ac yn dryloyw?
- A allai'r dull wella hyder ac ymddiriedaeth mewn tegwch?

6.5 Cynhwysiant leithyddol

Fel sefydliad yng Nghymru, bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried goblygiadau posibl o ran cydraddoldeb yn gysylltiedig ag iaith, gan gynnwys y modd mae allbynnau mewnol yn y Gymraeg yn cael eu trin. Er nad yw'r rhain yn nodweddion gwarchodedig o dan REF2029, gall y prosesau sefydliadol o'u cwmpas, os ydynt wedi'u cynllunio'n wael, arwain at anfantais anuniongyrchol. Ymgynghorir ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Medr ochr yn ochr â chanllawiau REF i sicrhau cyd-fynd â disgwyliadau penodol i Gymru.

6.6 Proses a Chyfrifoldebau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhelir EIAs ar y cyd gan y Rheolwr REF ac aelod dynodedig o Adnoddau Dynol. Adroddir canfyddiadau i'r Grŵp Rheoli REF. Bydd pob EIA yn dogfennu'r:

- Penderfyniad neu'r broses a aseswyd
- Y data a ystyriwyd
- Effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl
- Lliniaradau neu opsiynau amgen a ystyriwyd
- Trefniadau monitro
- Unrhyw gamau a gymerwyd i ddileu neu leihau anfantais

Bydd yr EIA terfynol ar ôl cwblhau REF 2029 yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol er budd tryloywder ac arfer da.

6.7 Amserlen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd y Brifysgol yn ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EIAs) ar bob un o'r pwyntiau penderfynu gofynnol ar gyfer REF2029, fel a ganlyn. Mae'r amseroedd yn adlewyrchu canllawiau REF2029 a chylchoedd cynllunio sefydliadol:

Maes Penderfynu REF	Amseriad EIA	Nodiadau
Datblygu Cod Ymarfer REF 2029	Mawrth 2026	Rhaid i EIA gyd-fynd â'r Cod Ymarfer a gyflwynir i Medr i'w gymeradwyo.
Penderfyniadau ynghylch SRR a RI	Yn flynyddol. EIA cyntaf Mawrth 2026, ac yna'n flynyddol o Hydref-Tachwedd 2026	Yn seiliedig ar broffiliau gweithgarwch academiaidd a phrofion sefydliadol ar ddisgwyliad rôl swyddi, dyrannu adnoddau ac annibyniaeth.
Dyrannu contractau i Unedau Asesu	Yn flynyddol, Awst – Medi 2026	Yn cyd-fynd ag amserlen adrodd i HESA.
Prosesau dewis allbynnau	EIA cychwynnol Mawrth 2026 (proses yn unig); cylch dewis cyntaf Medi – Rhagfyr 2027; dewis terfynol Mai 2028	EIA cychwynnol yn seiliedig ar y Cod Ymarfer yn unig, yr ail a'r trydydd EIA yn seiliedig ar ddata a gynhyrchir trwy'r broses dewis allbynnau.
Mecanweithiau apelio	Yn flynyddol, Hydref - Tachwedd	Yn dilyn penderfyniadau a chyfathrebiadau ynghylch dyrannu SRR ac unedau asesu.
Unrhyw adolygiad dilynol o bolisiau neu brosesau sy'n gysylltiedig â REF	Parhaus	Ailystyriir EIAs pan fydd polisiau'n newid neu pan fydd tystiolaeth o effaith wahaniaethol yn dod i'r amlwg.

6.8 Cyflwyniad EIA terfynol

Ar ôl y dyddiad cau cyflwyno i REF, bydd y Brifysgol yn cynhyrchu EIA terfynol, crynodol sy'n ymgorffori:

- Dadansoddiad o ddata nodweddion gwarchodedig ar gyfer penderfyniadau SRR ac RI
- Dadansoddiad o nodweddion staff a gynhwysir yn y cyflwyniad
- Dadansoddiad o ddosbarthiad allbynnau dethol
- Crynodeb o liniaradau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a'u heffeithiolrwydd
- Nodi arferion sy'n cefnogi cydraddoldeb yn gadarnhaol

Bydd yr EIA terfynol ar ôl cwblhau REF 2029 yn cael ei gyflwyno i REF a'i gyhoeddi fel mater o dryloywder sefydliadol ac arfer da

Atodiad 1. Diffiniad o ymchwil ar gyfer REF2029.

At ddibenion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diffinnir ymchwil fel proses ymchwilio sy'n arwain at fewnwelediadau newydd ac sy'n sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu'n effeithiol.

Mae hyn hefyd yn cynnwys:


- Gwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i fasnach, diwydiant, diwylliant, cymdeithas, a'r sectorau cyhoeddus neu wirfoddol.
- Ysgolheictod, a ddiffinnir fel creu, datblygu a chynnal seilwaith deallusol o bynciau a disgyblaethau (e.e. geiriaduron, argraffiadau ysgolheigaidd, catalogau, cronfeydd data ymchwil mawr)
- Dyfeisio a chynhyrchu syniadau, delweddau, perfformiadau, arteffactau, a dyluniadau sy'n arwain at ddealltwriaeth newydd neu sylweddol well.
- Cymhwyso gwybodaeth bresennol mewn datblygiad arbrol i gynhyrchu deunyddiau, dyfeisiau, cynhyrchion a phrosesau newydd neu sylweddol well, gan gynnwys dylunio ac adeiladu.

Mae **rhannu'n effeithiol** yn cwmpasu allbynnau sy'n cael eu cyhoeddi, eu lledaenu neu eu gwneud ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau cyfrinachol.

Eithriadau: Profion a dadansoddiadau arferol ar gyfer cynnal safonau, a datblygu deunyddiau addysgu nad ydynt yn ymgorffori ymchwil wreiddiol.

Amrywiaeth o allbynnau: Mae arferion ymchwil yn cynhyrchu ystod eang o allbynnau, gan gynnwys erthyglau cyfnodolion, monograffau, papurau cynadleddau, arteffactau, gwaith creadigol a arweinir gan arfer, adolygiadau, meddalwedd, setiau data, cyfieithiadau, adweithyddion, allbynnau aml-gydran, a dadansoddiadau polisi, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Bydd pob allbwn yn cael ei asesu'n gyfartal ar sail gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdd, waeth beth fo'i fformat, methodoleg neu iaith.

Atodiad 2. Siart Trefniadaeth PCYDDS



Awdur(on) y Cod Ymarfer:

Dr Matt Briggs. Pennaeth Datblygu Ymchwil.

Rheoli fersiynau'r ddogfen

Rhif y Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad y newid:
1	Drafft, Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Rhannau 1-4.	MB	14 Ion 2026
2	Drafft, Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Rhannau 1-5	MB	5 Mawrth 2026
3	Drafft ar gyfer ymgynghori. Rhannau 1-5.	MB	21 Ebrill 2026
4	Drafft yn ymgorffori ymatebion i'r ymgynghoriad	MB	8 Mai 2026
5	Drafft i'w adolygu a'i gymeradwyo gan Medr	MB	12 Mai 2026
6	Drafft diwygiedig i'w adolygu a'i gymeradwyo gan Medr	MB	15 Mehefin 2026
7	Cod wedi'i gymeradwyo gyda diwygiadau	MB	6 Awst 2026

Statws presennol y Polisi: wedi'i gymeradwyo

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AB

Dyddiad ei gadarnhau: 06 / 08 / 2026

Dyddiad y daw i rym: 06 / 08 / 2026

Dyddiad adolygu'r polisi: 01 / 12 / 2029

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS

Cymeradwyo

Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd.

Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar ba bryd y bydd yn fwyaf priodol ymgynghori â'r JCC ac a oes angen cymeradwyaeth gan y Cyngor

Gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo rhaid cyflwyno'r isod wedi'u cwblhau hefyd:

- [Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg](#)
- [Asesiad o'r Effaith ar y Sefydliad](#)
- [Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data](#)

Cyn cyflwyno polisi i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio'n cwblhau'r adran isod.

I'w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor

Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Sefydliad wedi'i gwblhau ☒

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau ☒

Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gwblhau ☒

Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David